# Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 16 Gorffennaf 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** – Clerc y Pwyllgor

**Sian Giddins** – Dirprwy Glerc

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(09.30) (Tudalennau 1 - 42)

## 2 Cylch gwaith y Pwyllgor

(09.30-09.35) (Tudalennau 43 - 44)

## 3 Deisebau newydd

(09.35-10.15)

3.1 P-06-1158 Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth

(Tudalennau 45 - 49)

3.2 P-06-1159 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru

(Tudalennau 50 - 57)

3.3 P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

(Tudalennau 58 - 62)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.4 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

(Tudalennau 63 - 69)

3.5 P-06-1162 Rhannu Sir Rhondda Cynon Taf ac uno Cwm Cynon â Sir Merthyr

(Tudalennau 70 - 75)

3.6 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

(Tudalennau 76 - 80)

3.7 P-06-1164 Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol

(Tudalennau 81 - 84)

3.8 P-06-1165 Dylid gwahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd

(Tudalennau 85 - 88)

3.9 P-06-1166 Darparu grantiau di-dreth i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau a darparu cyllid grant i leoliadau celfyddydol.

(Tudalennau 89 - 93)

3.10 P-06-1167 Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru

(Tudalennau 94 - 99)

3.11 P-06-1168 Ystyriwch ail-wneud y flwyddyn academaidd gyfredol hon ar gyfer myfyrwyr ar draws cymru

(Tudalennau 100 - 103)

3.12 P-06-1169 Gadewch i ddinasyddion Cymru bleidleisio ar gyfyngiadau symud

(Tudalennau 104 - 107)

3.13 P-06-1170 Adolygiad annibynnol di-oed o'r broses ddethol Haen 1 a Haen 2 yn Uwch-gynghrair Menywod Cymru

(Tudalennau 108 - 111)

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

(10.15-10.45)

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4.1 P-05-914 Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer yr Anabl

(Tudalennau 112 - 119)

4.2 P-05-974 Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU

(Tudalennau 120 - 123)

4.3 P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!

(Tudalennau 124 - 129)

## Addysg

4.4 P-05-1147 Dylid ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddarparu addysg fyw/addysg wedi'i recordio bob dydd i bob disgybl nad yw'n dychwelyd i'r ysgol

(Tudalennau 130 - 133)

## Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

4.5 P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru

(Tudalennau 134 - 139)

## Deisebau y gellir eu dirwyn i ben

4.6 P-05-1092 Peidiwch â gohirio etholiadau mis Mai 2021

(Tudalennau 140 - 141)

4.7 P-05-1150 Rhowch wyliau ardrethi busnes i safleoedd cartrefi gwyliau yng Nghymru, fel yn Lloegr

(Tudalennau 142 - 145)

4.8 P-05-1151 Dylid pennu dyddiad ar gyfer ailddechrau gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer babanod a phlant bach

(Tudalennau 146 - 149)

4.9 P-05-1154 Dylid ailagor y sector lletygarwch yng Nghymru erbyn 12 Ebrill 2021

(Tudalennau 150 - 153)

4.10 P-05-1156 Dylid cyfateb y cyllid ar gyfer busnesau bach yn ystod y cyfyngiadau symud gyda Lloegr - gan gynnwys y grant ailgychwyn

(Tudalennau 154 - 156)

4.11 P-05-1157 Caniatáu i ysgolion asesu myfyrwyr fel y maent yn gweld yn addas, gan gynnwys defnyddio asesiadau llyfr agored

(Tudalennau 157 - 162)

## 5 Papurau i'w nodi

(10.45-10.50)

5.1 Adroddiad gwaddol Fforwm y Cadeiryddion blaenorol

(Tudalennau 163 - 182)

5.2 Adroddiad gwaddol y pwyllgor a oedd yn rhagflaenu

(Tudalennau 183 - 208)

5.3 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

(Tudalennau 209 - 212)

5.4 P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

(Tudalennau 213 - 215)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 ac eitem 8 o'r cyfarfod.

(10.50)

## 7 Gweithdrefnau pwyllgorau a'u ffyrdd o weithio

(10.50-11.10) (Tudalennau 216 - 225)

## 8 Dull gweithredu strategol o ran cylch gwaith y Pwyllgor

(11.10-11.30) (Tudalennau 226 - 237)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2

# Pwyllgor Deisebau: Cylch gorchwyl

16 Gorffennaf 2021

## Diben

**1.** Mae'r papur yn nodi cylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Deisebau.

## Argymhelliad

**2.** Gwahoddir y Pwyllgor i nodi ei gylch gorchwyl.

## Cefndir

**3.** Mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd sefydlu pwyllgorau a chanddynt bŵer yn eu cylchoedd gorchwyl i:

> *"(i) archwilio gwariant, trefniadau cyllido, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi;*
>
> *(ii) archwilio deddfwriaeth;*
>
> *(iii) ymgymryd â swyddogaethau eraill a bennir yn y Rheolau Sefydlog; a*
>
> *(iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru."*

**4.** Drwy wneud hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig, ynghyd â phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**5.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021, yw:

> *"[...] i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 23."*

**6.** Mae manylion pellach am rolau a chyfrifoldebau ehangach pwyllgorau'r Senedd wedi'u nodi yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, sef **Pwyllgorau un y chweched Senedd: Teitlau a chylchoedd gorchwyl**, a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Mehefin 2021.

**P-06-1158 Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Alex Chung, ar ôl casglu cyfanswm o 315 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Gydag un o bob pump o bobl yma yng Nghymru yn byw gydag anabledd yn ôl SYG, ni fu erioed yn bwysicach i Gymru ddod yn genedl wirioneddol gynhwysol i'w holl ddinasyddion. Rydym am i Gymru fod y wlad ddatganoledig gyntaf i gael ei Gweinidog anabledd pwrpasol ei hun. Gyda gweinidog pwrpasol yn canolbwyntio ar anabledd, gallwn gymryd camau brasach tuag at system gyflogaeth decach, creu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr anabl a chynnig mwy o gymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Enghreifftiau o ystadegau anabledd yng Nghymru.
(1) Mae anabledd gan fwy nag un o bob pump o bobl o oedran gweithio yng Nghymru.
(2) Nid oes gan 21 y cant o orsafoedd trenau yng Nghymru fynediad heb risiau ac, ar y gyfradd bresennol, ni fydd gorsafoedd yn gwbl hygyrch tan 2070.
(3) Mae problem iechyd meddwl gan un o bob pedwar o bobl.
(4) Roedd 330,000 o bobl anabl yn ddi-waith y llynedd. Y llynedd, roedd 81.8 y cant o bobl nad ydynt yn anabl yn gyflogedig o gymharu hynny â 53.2 y cant o bobl anabl ar yr un pryd yn ôl ystadegau’r SYG (DU)

Dyma ychydig o enghreifftiau o pam y gall cael gweinidog anabledd pwrpasol yn Llywodraeth Cymru roi trefn ar y materion hyn ynghylch anabledd yng Nghymru.

(1)https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-yeardisabledstatus-fromapril2013

(2)Leonard Cheshire. Trains for All Campaign, 2019

(3)ONS, Psychiatric Morbidity, 2007

(4)https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/bulletins/disabilityandemploymentuk/2019

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru

# Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0189-1

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1158

**Teitl y ddeiseb**: Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth

**Testun y ddeiseb:**

Gydag un o bob pump o bobl yma yng Nghymru yn byw gydag anabledd yn ôl SYG, ni fu erioed yn bwysicach i Gymru ddod yn genedl wirioneddol gynhwysol i'w holl ddinasyddion. Rydym am i Gymru fod y wlad ddatganoledig gyntaf i gael ei Gweinidog anabledd pwrpasol ei hun. Gyda gweinidog pwrpasol yn canolbwyntio ar anabledd, gallwn gymryd camau brasach tuag at system gyflogaeth decach, creu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr anabl a chynnig mwy o gymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

# 1. Cefndir

**Cyhoeddodd** y Prif Weinidog ei Gabinet newydd ar 13 Mai 2021. Ni chafodd Gweinidog anabledd penodol ei benodi. Mae'r cyfrifoldeb dros strategaeth a pholisi ynghylch anabledd wedi'i ysgwyddo gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, fel rhan o'i chyfrifoldebau dros gydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae gan Lywodraeth yr Alban **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol**, sydd â chyfrifoldebau tebyg i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth yr Alban **Weinidog dros Gydraddoldeb a Phobl Hŷn** hefyd, sydd hefyd ag anabledd yn rhan o'i chylch gwaith.

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig **Weinidog Gwladol dros Bobl Anabl** o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae cylch gwaith y Gweinidog hwn yn cynnwys cymorth ar draws y Llywodraeth ar gyfer pobl anabl, strategaeth adrannol ar gyfer pobl anabl, diwygio lwfansau i bobl anabl, a strategaeth waith ac iechyd i bobl anabl o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon **Adran Gymunedau** sy'n gyfrifol am faterion anabledd.

Mae yna esiamplau o wledydd ledled y byd sydd â Gweinidogion neu Ysgrifenyddion Cabinet sydd â chyfrifoldeb penodol dros faterion anabledd. Er enghraifft, mae gan Lywodraeth Seland Newydd **Swyddfa dros faterion anabledd** a Gweinidog dros faterion anabledd. Mae gan Lywodraeth Iwerddon **Weinidog Gwladol sy'n gyfrifol am faterion anabledd** ar draws dwy adran, sef yr Adran Iechyd a'r Adran Plant, Cydraddoldeb, Anabledd, Integreiddio ac Ieuenctid.

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru **Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl** sy'n cynnwys rhanddeiliaid ac sy'n rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar faterion anabledd. Mewn **datganiad** ym mis Rhagfyr 2020, dywedodd Jane Hutt AS, y Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, ei bod wedi cadeirio cyfarfod o'r grŵp hwn ar chwe achlysur ers dechrau'r pandemig.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Er bod materion anabledd wedi'u trafod yn rheolaidd yn Senedd Cymru, nid oes unrhyw ddadleuon penodol wedi'u cynnal ynghylch penodi Gweinidog anabledd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn y gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol na fydd y papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-05-1159 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert Curtis, ar ôl casglu cyfanswm o 6,514 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Gofynnwch i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ac mae'n siŵr y byddent yn dweud wrthych eu bod yn credu y cafodd yr arfer o osod maglau ar gyfer anifeiliaid gwyllt ei wahardd yn yr oesoedd tywyll, ond yn anffodus mae'r gwir yn dra wahanol. Y gwir yw bod miloedd o anifeiliaid gwyllt a domestig yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru bob blwyddyn gan fod pobl yn defnyddio maglau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Ar hyn o bryd, dim ond cod arfer gorau sydd gennym o ran eu defnydd, er bod y trapiau'n wirioneddol greulon. Nid oes lle iddynt yn y Gymru fodern sy'n ystyriol o fywyd gwyllt.

Mae'r maglau yn wifrau tenau â dolen sydd wedi'u dylunio i ddal ac achosi marwolaeth i'r dioddefwr yn y pen draw. Mae'r ffordd y maen nhw wedi'u dylunio'n golygu eu bod yn aml iawn yn achosi i'r anifail sydd wedi'i ddal ynddynt golli aelodau neu dagu, a dioddef marwolaeth araf.

Mae awgrymu "Cod arfer gorau" yn gyfwerth â chael "Cod arfer gorau" ar gyfer defnyddio'r gadair drydan. Mae'r ddau yn greulon ac yn annynol yn eu hanfod.
Mae hefyd yn anodd iawn gorfodi'r rheoliadau ynglŷn â gosod maglau, sy'n digwydd yn bennaf ar dir preifat mewn lleoliadau anghysbell.

Ar adeg pan yr ydym yn ceisio ailgyflwyno llawer o rywogaethau a gollwyd ers amser maith (oherwydd erledigaeth a hela anwybodus yn y gorffennol), fel bele'r coed, gwiwerod coch, ceirw, dyfrgwn a hyd yn oed afancod, mae

dyluniad anwahaniaethol y maglau yn golygu y bydd llawer o'r rhywogaethau gwarchodedig hyn yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn y pen draw.

Mae'r trapiau anwahaniaethol hyn hefyd yn fygythiad gwirioneddol ac annerbyniol i'n cathod a chŵn anwes teuluol. Gwnewch Gymru'n rhydd rhag maglau!

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0189-2

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1159

**Teitl y ddeiseb:** Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Gofynnwch i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ac mae'n siŵr y byddent yn dweud wrthych eu bod yn credu y cafodd yr arfer o osod maglau ar gyfer anifeiliaid gwyllt ei wahardd yn yr oesoedd tywyll, ond yn anffodus mae'r gwir yn dra wahanol. Y gwir yw bod miloedd o anifeiliaid gwyllt a domestig yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru bob blwyddyn gan fod pobl yn defnyddio maglau.

Ar hyn o bryd, dim ond cod arfer gorau sydd gennym o ran eu defnydd, er bod y trapiau'n wirioneddol greulon. Nid oes lle innynt yn y Gymru fodern sy'n ystyriol o fywyd gwyllt.

Mae'r maglau yn wifrau tenau â dolen sydd wedi'u dylunio i ddal ac achosi marwolaeth i'r dioddefwr yn y pen draw. Mae'r ffordd y maen nhw wedi'u dylunio'n golygu eu bod yn aml iawn yn achosi i'r anifail sydd wedi'i ddal ynddynt golli aelodau neu dagu, a dioddef marwolaeth araf.

Mae awgrymu "Cod arfer gorau" yn gyfwerth â chael "Cod arfer gorau" ar gyfer defnyddio'r gadair drydan. Mae'r ddau yn greulon ac yn annynol yn eu hanfod.

Mae hefyd yn anodd iawn gorfodi'r rheoliadau ynglŷn â gosod maglau, sy'n digwydd yn bennaf ar dir preifat mewn lleoliadau anghysbell.

Ar adeg pan yr ydym yn ceisio ailgyflwyno llawer o rywogaethau a gollwyd ers amser maith (oherwydd erledigaeth a hela anwybodus yn y gorffennol), fel bele'r coed, gwiwerod coch, ceirw, dyfrgwn a hyd yn oed afancod, mae dyluniad anwahaniaethol y maglau yn golygu y bydd llawer o'r rhywogaethau gwarchodedig hyn yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn y pen draw.

Mae'r trapiau anwahaniaethol hyn hefyd yn fygythiad gwirioneddol ac annerbyniol i'n cathod a chŵn anwes teuluol. Gwnewch Gymru'n rhydd rhag maglau!

# 1. Cefndir

## Rheoleiddio'r defnydd o faglau

Mae defnyddio maglau yn golygu maglu a rhwystro anifail, yn aml cyn iddo gael ei ladd. Fe'i defnyddir yn bennaf yn y DU gan ffermwyr a rheolwyr tir eraill i reoli bywyd gwyllt fel llwynogod, cwningod, llygod mawr, gwiwerod llwyd a minc. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio gan rai i ddal bywyd gwyllt am ei ffwr.

O dan ***Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981***, mae'n drosedd:

- gosod magl gloi mewn ffordd y bwriadwyd iddi achosi anaf corfforol i unrhyw anifail gwyllt;
- lladd neu gymryd unrhyw anifail gwyllt gan ddefnyddio magl gloi;
- gosod magl (neu declyn arall) mewn modd y bwriadwyd iddo achosi anaf corfforol i unrhyw anifail a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf, er enghraifft moch daear;
- lladd neu gymryd unrhyw anifail a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf gan ddefnyddio magl;
- gosod magl ac yna methu ag archwilio'r fagl honno (neu sicrhau bod rhywun arall yn ei harchwilio) o leiaf unwaith bob dydd;
- gosod unrhyw fath o fagl oni bai ei fod yn 'berson awdurdodedig' o dan y Ddeddf (hynny yw, perchennog neu feddiannydd y tir lle y gosodir y fagl, unrhyw berson a awdurdodir gan berchennog neu feddiannydd y tir, neu berson a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal); a
- meddu ar fagl at ddibenion cyflawni unrhyw un o'r tramgwyddau uchod.

Mae adran 11(4) o *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981* yn rhoi pwerau cyfyngedig i Weinidogion Cymru ddiwygio'r modd y caiff defnydd o faglau ei reoleiddio ond dim ond at y diben o gydymffurfio â rhwymedigaeth ryngwladol. Byddai angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwneud unrhyw ddiwygiadau eraill.

O dan Adran 9 o ***Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006**,* mae'n rhaid i unigolion gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles pob anifail o dan eu rheolaeth yn cael eu diwallu, ac amddiffyn yr anifail rhag poen a dioddefaint.

Mae Adran 14 o *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006* yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ymarfer. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid** (y sonnir amdano isod o dan 'camau gweithredu Llywodraeth Cymru').

Mae ***Deddf Ceirw 1991*** yn gwahardd defnyddio maglau i ddal, lladd neu achosi niwed corfforol i geirw (Adran 4).

Mae ***Deddf Diogelu Mamaliaid Gwyllt 1996*** yn gwahardd gweithredoedd treisgar gyda'r bwriad o beri dioddefaint diangen i famaliaid gwyllt (Adran 1).

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolaethau deddfwriaethol ar waith yng Nghymru'n benodol ar weithgynhyrchu a gwerthu maglau.

## Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Sefydlodd ***Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020*** reolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau ledled y DU. Sefydlodd y Ddeddf egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu, a'u hymgorffori yng nghyfraith y DU fel Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

O dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, os yw nwydd yn cydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â'i werthu yn y rhan o'r DU lle cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddi, gellir ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni'r safonau yn y rhannau eraill hynny, hyd yn oed os ydyn nhw'n wahanol.

O dan yr egwyddor peidio â gwahaniaethu, nid yw unrhyw reolau sy'n rheoleiddio sut y dylid gwerthu nwyddau mewn un rhan o'r DU sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn darparwyr o rannau eraill o'r DU yn berthnasol yn gyffredinol.

Gall gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid ddod o fewn cwmpas yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn *Neddf Marchnad Fewnol 2020*. Mae hyn yn golygu y gallai effaith a gorfodadwyedd cynnig y ddeiseb gael eu heffeithio'n ymarferol.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

## Y Rhaglen Lywodraethu

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys amcan i "wahardd y defnydd o faglau".

## Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Ym mis Ionawr 2021, dywedodd **llythyr gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd,** mewn ymateb i **ddeiseb flaenorol**, y gallai'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a ddisgwylir yn ystod y Chweched Senedd, ddarparu'r pwerau deddfwriaethol i "reoleiddio pob agwedd ar werthu a defnyddio maglau yng Nghymru".

## Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid

Ar 25 Medi 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '**God ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid**' (cod statudol o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006). Mae'r cod yn crynhoi'r rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol ar y rheini sy'n defnyddio maglau ac yn amlinellu'r canllawiau y dylid eu dilyn. Mae'n canolbwyntio ar reoli llwynogod mewn ardaloedd gwledig.

Nid yw methu â chydymffurfio â chod o'r fath yn drosedd ynddo'i hun. Fodd bynnag, gall methiant i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol cod ymarfer gael ei ddefnyddio mewn llys er mwyn sefydlu atebolrwydd.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad ar god 2015** yn dilyn **argymhelliad gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) y Bumed Senedd** y dylid cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cod (gweler 'camau gweithredu Senedd Cymru').

Cyfeiriodd adroddiad 2019 at ddigwyddiad rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2018 ar y cod. Dywedodd y 'daeth amrywiaeth eang o randdeiliaid i'r digwyddiad, gyda barn wahanol am ddefnyddio maglau'. Dywedodd:

> Cadarnhaodd y rhanddeiliaid fod y Cod wedi cael ei ddosbarthu ar raddfa eang i aelodau oedd yn defnyddio maglau fel rhan o'u gwaith bob dydd. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn credu bod eu haelodau yn cydymffurfio ag argymhellion y Cod. Ond ychydig o dystiolaeth ffeithiol sydd ar gael a chydnabyddir ei bod yn anodd mesur neu amlygu tystiolaeth o ymarfer da a chydymffurfiad â'r Cod gan fod gosod a defnyddio maglau'n digwydd ar dir preifat gan mwyaf.

Roedd y camau nesaf a nodwyd yn yr adroddiad yn cynnwys bod angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gwrdd â rhanddeiliaid eto ym mis Mai 2019. Yna byddai'r dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio fel rhan o'r broses barhaus i benderfynu a yw cod 2015 'yn gweithio ai peidio ac a oes angen ystyried camau pellach, gan gynnwys opsiynau deddfwriaethol'. Nid yw Ymchwil y Senedd wedi gallu dod o hyd i unrhyw wybodaeth gyhoeddus am y digwyddiad arfaethedig ym mis Mai 2019.

## Ymgynghoriad Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth flaenorol Cymru yn 2017, **Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy,** yn ceisio barn ar reoleiddio maglau (Pennod 10). Roedd yn cynnwys saith cynnig yn ymwneud ag agweddau ar ddylunio maglau ac ymarfer gweithredwyr maglau yn gofyn a ddylid cael pwerau pellach i wneud Gorchmynion i Weinidogion Cymru reoleiddio maglau.

Roedd **cyfran fawr o'r ymatebwyr** i ymgynghoriad 2017 yn gwrthwynebu defnyddio maglau yn gyffredinol ac yn teimlo y dylid eu gwahardd yn llwyr.

**Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad** nad oedd gwahardd maglau yn gynnig a nodwyd yn yr ymgynghoriad, felly ni ellid cael darlun cyflawn o farn pobl ar wahardd maglau, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, trwy'r ymgynghoriad hwn.

Ni fu unrhyw reoleiddio pellach ar ddefnyddio maglau ers ymgynghoriad 2017.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn 2016/17 cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ymchwiliad i'r defnydd o faglau. Ym mis Mehefin 2017 cyhoeddodd y Pwyllgor ei '**Adroddiad ar ddefnyddio maglau yng Nghymru'**. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> Mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos i ni fod bylchau sylweddol yn y data sydd ar gael er mwyn deall i ba raddau y defnyddir maglau yng Nghymru, pa mor effeithiol ydynt ac a ydynt yn rheoli plâu heb fod yn greulon.
>
> Rydym wedi nodi argymhellion sy'n ceisio creu fframwaith ar gyfer casglu'r data gofynnol ac i ddefnyddio'r data hyn wrth adolygu'r polisi cyfredol.
>
> Os gellir dangos drwy'r data bod y dull hwn yn effeithiol a dangos nad yw'n greulon, yna rydym wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu ei dull yn rheolaidd. Os na, yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall weithredu'n

> gyflym. […] Rydym wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi deddfwriaeth ddrafft yn awr i sicrhau ei bod mewn sefyllfa i weithredu ar unwaith pe bai ymdrechion cyfunol y Llywodraeth, y diwydiant a thirfeddianwyr yn methu â chyflawni uchelgeisiau'r Cod.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol o god 2015 a chyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw. Fel y trafodwyd, cafodd **adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar god ymarfer 2015** ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019.

Ystyriodd Pwyllgor Deisebau'r Pumed Senedd **Deiseb P-05-1026 - i wahardd maglu bywyd gwyllt i'w defnyddio yn y fasnach ffwr**. Yn sgil bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth yn ystod y Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gamau pellach y gallai eu cymryd cyn etholiadau Senedd 2021.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

# Eitem 3.3

**P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy’n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Claire Woolley, ar ôl casglu cyfanswm o 393 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae angen gwarantu mynediad i fyfyrwyr sy’n cael addysg yn y cartref at ganolfannau arholiadau lleol addas, er mwyn iddynt gael yr un hawliau a mynediad at gymwysterau â phob plentyn arall yng Nghymru.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

# Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0189-3

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1160

**Teitl y ddeiseb**: Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy’n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus.

**Testun y ddeiseb:** Mae angen gwarantu mynediad i fyfyrwyr sy’n cael addysg yn y cartref at ganolfannau arholiadau lleol addas, er mwyn iddynt gael yr un hawliau a mynediad at gymwysterau â phob plentyn arall yng Nghymru.



www.senedd.cymru

# 1. Cefndir

Yn gyffredinol, os yw person ifanc am gael cymhwyster fel TGAU neu Safon Uwch, sy’n golygu bod yn rhaid iddo eistedd arholiad, mae’n rhaid eistedd yr arholiad hwnnw mewn canolfan arholi sydd wedi’i chymeradwyo, ac sydd fel arfer wedi’i lleoli mewn ysgol uwchradd neu goleg addysg bellach. Caiff y canolfannau hyn eu cymeradwyo gan y bwrdd arholi perthnasol oherwydd eu bod yn bodloni gofynion y bwrdd yn ogystal â gofynion y Cyd-Gyngor Cymwysterau.

Nid oes gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gyllido rhieni sy’n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Mae’n rhaid i rieni sy’n dewis addysgu eu plant yn y cartref fod yn gyfrifol am yr holl gostau ariannol, gan gynnwys costau llyfrau ac unrhyw adnoddau eraill, yn ogystal â chost unrhyw arholiadau cyhoeddus a ffioedd am gyrsiau.

Mae **canllaw** i addysg ddewisol yn y cartref a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi, lle bo gan rieni berthynas gadarnhaol ag ysgol neu goleg yn barod, y byddant o bosibl am ofyn a all plentyn gofrestru ar gyfer arholiad yn yr ysgol neu goleg o dan sylw ac a fyddai’n bosibl i’r ysgol neu goleg asesu unrhyw waith cwrs hefyd. Lle nad oes perthynas neu gyswllt ag ysgol neu goleg, byddai’n rhaid i’r rhieni gysylltu â bwrdd arholi, a fydd o bosibl yn gallu gwneud y trefniadau perthnasol â chanolfan arholi leol ar eu rhan.

# 2. Arholiadau cyhoeddus yn 2021

Ar 10 Tachwedd 2020, **cyhoeddodd** Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, na fyddai arholiadau diwedd y flwyddyn yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf 2021. Yn lle hynny, nododd y Gweinidog y byddai’r asesiadau’n cael eu rheoli gan athrawon, gan gynnwys asesiadau y byddant wedi’u llunio a’u marcio’n allanol ond wedi’u cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth o dan oruchwyliaeth yr athro.

Ar 20 Ionawr 2021, oherwydd y dirywiad yn y sefyllfa o ran iechyd cyhoeddus a’r angen i ddysgu o bell hyd nes canol mis Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai ymgeiswyr TGAU, Safon Uwch a Safon Uwch Atodol a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yn cael eu cymwysterau drwy fodel graddau a benderfynir gan y ganolfan.

Caiff graddau eu penderfynu gan ysgol neu goleg y dysgwr, a hynny’n seiliedig ar asesiad o waith y dysgwr. Mae ysgolion a cholegau wedi gallu defnyddio ystod o dystiolaeth i benderfynu ar raddau eu dysgwyr, gan gynnwys elfennau nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth. Hefyd, mae CBAC wedi cynnig set o bapurau arholiad blaenorol sydd wedi’u haddasu er mwyn i ysgolion allu parhau i asesu’r hyn a ddysgwyd o fewn y cynlluniau addysgu sydd ganddynt, gan roi rhagor o gefnogaeth i athrawon a dysgwyr.

Unwaith i'r gwaith o wirio ansawdd gael ei gwblhau gan y ganolfan, caiff y graddau eu cyflwyno i CBAC. Gall dysgwyr apelio i'w hysgol neu goleg os nad ydynt yn fodlon â'r graddau a roddir, ac i CBAC os nad ydynt yn fodlon â'r broses a ddilynwyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan** Cymwysterau Cymru.

# 3. Ymgeiswyr preifat

Caiff dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ac sydd am gael eu hasesu ar gyfer cymwysterau eu hystyried fel 'ymgeiswyr preifat'. Ar gyfer arholiadau 2021, mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau** i ymgeiswyr preifat. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r ddau lwybr sy'n agored i ymgeiswyr preifat:

- Os oes gan ymgeisydd preifat berthynas â chanolfan yn barod—er enghraifft, os yw'r ymgeisydd yn ail-eistedd arholiad mewn canolfan benodol neu os yw canolfan eisoes wedi derbyn cais gan ymgeisydd preifat penodol—bydd y ganolfan honno'n asesu'r ymgeisydd preifat yn yr un ffordd ag y mae'n asesu dysgwyr yn y ganolfan ei hun. Bydd y ganolfan yn rhoi'r graddau, a chaiff y graddau hyn eu penderfynu gan y ganolfan. Hefyd, y ganolfan fydd yn gyfrifol am yr adolygiad os yw'r ymgeisydd yn apelio yn erbyn ei ganlyniadau dros dro.
- Os nad oes gan ymgeisydd preifat berthynas â chanolfan yn barod, caiff canolfan ei nodi at ddibenion asesu'r ymgeisydd preifat o dan sylw. Bydd ymgeisydd preifat yn mynd i'r ganolfan berthnasol ar gyfer asesiadau a bennir gan CBAC. Bydd CBAC yn marcio'r asesiadau hyn, ynghyd â phortffolio o waith y dysgwr, i benderfynu ar radd. Bydd CBAC yn seilio'r penderfyniadau hyn ar yr un canllawiau a ddefnyddir gan y canolfannau eu hunain, gan gynnwys y disgrifwyr a gyhoeddwyd ar gyfer pob gradd. Hefyd, bydd CBAC yn rheoli'r broses apelio ar gyfer yr ymgeiswyr hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod o leiaf un ysgol neu goleg mewn ardal leol wedi'i nodi fel canolfan ar gyfer asesu ymgeiswyr preifat. Mae rhestr o'r canolfannau hyn ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

Y dyddiad cau i wneud cais am asesiad drwy ganolfan oedd 26 Ebrill 2021. Gall canolfannau barhau i dderbyn ymgeiswyr ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, bydd hyn yn digwydd yn ôl disgresiwn y ganolfan, ac mae'n bosibl y bydd ffi mynediad hwyr yn daladwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grant i gefnogi'r canolfannau sy'n asesu ymgeiswyr preifat. Diben y grant hwn yw talu'r costau sy'n gysylltiedig â threfniadau asesu ymgeiswyr preifat eleni, a hynny er mwyn atal ymgeiswyr rhag gorfod talu unrhyw gostau ychwanegol eu hunain.

Mewn blwyddyn arferol, mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr preifat yn talu ffi mynediad ar gyfer eu cymhwyster yn ogystal â chost ychwanegol er mwyn i'r ganolfan weinyddu'r asesiad. Bydd yr arfer hwn yn parhau yn yr haf 2021. Diben y grant sydd ar gael gan y Llywodraeth yw talu unrhyw

gostau ychwanegol sy'n daladwy eleni yng nghyd-destun ymgeiswyr preifat, o gofio bod y dull asesu yn wahanol. Disgwylir i ganolfannau godi'r un ffi am ymgeiswyr preifat ag y maent wedi'i chodi yn y gorffennol, pan oedd arholiadau wedi gallu mynd yn eu blaenau, ac ni ddylent godi ffi uwch eleni.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn y gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol na fydd y papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nicola Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 60 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Credwn fod llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn cerdded allan o'u lleoliadau gan nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w profiadau blaenorol na'u lles meddyliol er bod gan fabi hawl i aros gyda'i riant/rhieni os yw'n ddiogel gwneud hynny.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae llawer o rheini sy'n gadael gofal yn profi ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol pan fyddant yn rhoi genedigaeth. Mae hyn yn aml oherwydd eu hanes a/neu ddiffyg canllawiau gan eu rhieni eu hunain. Heb os, mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ac yn aml yn dioddef o orbryder yn eu bywydau fel oedolion. Yn aml nid ydyn nhw erioed wedi teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod eu plentyndod ac mae cael eu lle eu hunain wedi bod yn hafan ddiogel iddynt lle maen nhw'n gallu ymlacio'n llwyr. Ar hyn o bryd, os oes unrhyw bryderon, mae rhiant yn cael ei gludo o'i gartref, ei deulu a'i ffrindiau ac yna'n cael ei roi mewn cartref maeth neu gartref preswyl i'w asesu heb fawr o ystyriaeth i'r hyn sy'n sbarduno'r rhiant, a'i les meddyliol. Credwn fod hyn yn aml yn achosi cyfnod emosiynol dros ben ac yna mae rhieni'n gadael eu lleoliadau gan ddifaru am byth y penderfyniad brys a wnaed mewn eiliad bryderus na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa wedi cael ei thrin â mwy o empathi. Rydym am wybod y ffeithiau i weld a oes angen ateb gwell ar gyfer y rhiant a'r plentyn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21189-4

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1161

**Teitl y ddeiseb**: Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

**Geiriad y ddeiseb:**

Credwn fod llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn cerdded allan o'u lleoliadau gan nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w profiadau blaenorol na'u lles meddyliol er bod gan fabi hawl i aros gyda'i riant/rhieni os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Mae llawer o rheini sy'n gadael gofal yn profi ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol pan fyddant yn rhoi genedigaeth. Mae hyn yn aml oherwydd eu hanes a/neu ddiffyg canllawiau gan eu rhieni eu hunain. Heb os, mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ac yn aml yn dioddef o orbryder yn eu bywydau fel oedolion. Yn aml nid ydyn nhw erioed wedi teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod eu plentyndod ac mae cael eu lle eu hunain wedi bod yn hafan ddiogel iddynt lle maen nhw'n gallu ymlacio'n llwyr. Ar hyn o bryd, os oes unrhyw bryderon, mae rhiant yn cael ei gludo o'i gartref, ei deulu a'i ffrindiau ac yna'n cael ei roi mewn cartref maeth neu gartref preswyl i'w asesu heb fawr o ystyriaeth i'r hyn sy'n sbarduno'r rhiant, a'i les meddyliol. Credwn fod hyn yn aml yn achosi cyfnod emosiynol dros ben ac yna mae rhieni'n gadael eu lleoliadau gan ddifaru am byth y penderfyniad brys a wnaed mewn eiliad bryderus na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa wedi cael ei thrin â mwy o empathi. Rydym am wybod y ffeithiau i weld a oes angen ateb gwell ar gyfer y rhiant a'r plentyn.

# 1. Y cyd-destun

Mae’r ddeiseb hon yn cyfeirio at rieni sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol pan oeddent yn blant, ac sydd, yn eu tro, yn destun ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cael eu plant eu hunain.

'Plant sy’n derbyn gofal' yw'r term cyfreithiol ar gyfer plant y mae awdurdodau lleol yn gofalu amdanynt mewn ystod o leoliadau. Os ydynt yn bodloni meini prawf penodol pan maent yn cyrraedd oedran penodol, mae ganddynt hawl i gymorth tymor hwy, hyd at 25 oed mewn rhai amgylchiadau, ac fe'u diffinnir yn gyfreithiol fel 'pobl sy’n gadael gofal'. Mae’r derminoleg hon wedi’i hadlewyrchu mewn ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n well gan lawer o bobl y term 'wedi bod mewn gofal' wrth gyfeirio at y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc. Lle bo modd, mae'r briff hwn yn defnyddio’r term 'wedi bod mewn gofal' er mwyn adlewyrchu geiriad y ddeiseb.

## 1.1. Beth yw lleoliad rhiant a phlentyn?

Weithiau, mae awdurdod lleol yn lleoli plentyn a rhiant gyda'i gilydd mewn lleoliad sydd â therfyn amser. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn er mwyn caniatáu iddynt aros gyda'i gilydd tra bod asesiad rhianta a/neu achos llys yn cael ei gynnal. Fel arfer, defnyddir y lleoliadau hyn ar gyfer babanod yn hytrach na phlant hŷn. Gallant fod yn lleoliadau maeth neu’n lleoliadau preswyl, er enghraifft, mewn uned arbenigol ar gyfer rhieni a phlant. Gallant fod yn lleoliadau awdurdod lleol neu’n lleoliadau sy’n cael eu darparu gan ddarparwyr preifat.

Un senario cyffredin lle mae lleoliadau o’r fath yn cael eu defnyddio yw sefyllfa lle mae gan awdurdod lleol bryderon ynghylch lles neu ddiogelwch plentyn, ac yn penderfynu gwneud cais am orchymyn llys i ymyrryd at ddibenion ceisio diogelu’r plentyn mewn modd sydd wedi’i gynllunio neu ar sail argyfwng. Fel rhan o'r achosion cyfraith gyhoeddus hyn, gall y llys roi cyfarwyddyd bod asesiad rhianta preswyl yn cael ei gynnal.

Mae’r gallu i fagu plant yn rhan bwysig o’r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant a'u Teuluoedd, fel y nodir yn y Cod ymarfer ar gyfer asesu anghenion unigolion, a gyhoeddwyd o dan Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.**

## 1.2. Rhieni sydd wedi bod mewn gofal

Nid yw data’n cael eu cyhoeddi fel mater o drefn ynghylch nifer y rhieni sydd wedi bod mewn gofal ac y mae eu plant wedi cael eu tynnu o’u gofal. Fodd bynnag, mae pryderon bod rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn llawer mwy tebygol na’r boblogaeth gyffredinol o rieni o weld eu plant yn cael eu tynnu o’u gofal a’u gosod yng ngofal yr awdurdod lleol.

Mae'r hyn sy'n digwydd i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal pan ddônt yn rhieni eu hunain wedi bod yn destun sawl adroddiad a phrosiect ymchwil fel yr astudiaeth hon o blant y plant sy'n derbyn gofal. Edrychodd yr astudiaeth hon ar y gefnogaeth a ddarparwyd i rieni a oedd wedi bod mewn gofal a'r hyn a ddigwyddodd i'w plant hwy yn sgil hynny. Gan gyfeirio at yr wyth o rieni yng Nghymru a fu'n blant a oedd wedi bod mewn gofal a phobl a oedd wedi gadael gofal, mae'r astudiaeth yn nodi:

> Thirty-one pregnancies were discussed during the interviews: 16 live births, two ongoing pregnancies, one stillbirth, one termination and 11 miscarriages. At the point of interview, two parents continued to care for their children, but six had experienced the permanent removal of their child/ren as a result of social services intervention. Twelve of the 16 children discussed in the interviews were ‘looked after’ or adopted.

Roedd astudiaeth a wnaed ar **bobl yng Nghymru sy’n gadael gofal a'u plant sy’n cael eu lleoli i’w mabwysiadu** yn cynnwys y canfyddiadau a ganlyn:

> Young people in and leaving state care are more likely than the general population to become parents at a young age. Relatively little is known about the experiences and progress of care leaver parents and their children, but emerging evidence suggests an increased risk of intergenerational state intervention.

Gan gyfeirio at ddata o Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru, canfu’r astudiaeth fod mwy na chwarter (27%) o’r mamau biolegol ac un rhan o bump (19%) o’r tadau biolegol a oedd â phlant a oedd wedi’u lleoli i'w mabwysiadu yn bobl a oedd wedi gadael gofal eu hunain.

Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod modd gwahaniaethu rhwng rhieni a oedd wedi bod mewn gofal â rhieni biolegol eraill yn sgil eu profiadau personol o gael eu cam-drin a’u hesgeuluso. Dywedodd yr astudiaeth:

> Care leaver birth mothers were also more likely than their non-care leaver counterparts to have diagnosed mental health problems and were less likely to appeal the adoption plan. The profiles of children placed for adoption between care leaver and non-care leaver birth parents were similar.

Canfu astudiaeth gan Sefydliad Nuffield yn Lloegr fod nifer uchel o fenywod sy'n ymddangos yn rheolaidd gerbron llysoedd teulu, ac y mae eu plant yn cael eu tynnu o'u gofal a'u gosod mewn gofal cyhoeddus neu eu mabwysiadu, wedi derbyn gofal eu hunain.

Yn ôl cofnodion y llysoedd, roedd 40 y cant o sampl o 354 o famau a oedd yn destun achosion ailadroddus wedi derbyn gofal maeth neu wedi bod mewn cartref plant, gyda 14 y cant arall yn byw fel rhan o berthynas breifat neu anffurfiol i ffwrdd o'u rhieni.

# 2. Casglu a chyhoeddi data

Ni chyhoeddir data 'o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn', sef y data y cyfeirir atynt yn y ddeiseb. Mae'n bosibl bod nifer o asiantaethau'n rhan o'r broses hon – ond yn bennaf, awdurdodau lleol a CAFCASS.

Mae amrediad o ddata am blant sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol ac yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn dilyn hynny.

CAFCASS Cymru yw'r sefydliad sy'n cefnogi plant a theuluoedd mewn achosion yn y llysoedd teulu. Mae'n cynghori'r llysoedd ynghylch y camau y mae'n ystyried fel y rhai gorau i'w cymryd er budd gorau plant unigol. Mae'r ystadegau y mae'n eu cyhoeddi i'w gweld yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, sef Adroddiad Blynyddol 2019-20.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-05-1161 Routine collection and publication of data of how many babies/children return to their care experienced parents care at the end of a Parent and Child Placement, Correspondence – Petitioner to Committee, 01.07.21**

Thank you for giving me the opportunity to explain the petition further. I'm sure the petition could have had a different heading and would have had further signatures if the wider public understood the reason for it.

I am a foster carer and about four years ago found out that a young woman, who had been in foster care, was pregnant. I knew this young woman would need some support and advice around childcare so took her under my wing. She, unfortunately, experienced two miscarriages before finally having a pregnancy that went full term and the baby was born in August 2020. By this time we had (and still have) a good relationship where the young mum now trusts me (believe me, this is not easy for children/young people who believe they have never had any reason to trust adults).

Prior to the birth of the baby we had organised for mum and baby to come to me straight to my home a couple of weeks but then social services became involved. The mother hadn't done anything wrong. She'd struggled as a teenager so everything was historical other than one 'row' with her boyfriend of 5 years during the pregnancy. I am not condoning the argument and I explained to the mum that, even in the womb, this can impact on a baby and this was taken on board. Unfortunately, social services put this down to 'emotional abuse' and put the baby on the child protection register. I tried to intervene and even took 'mother and baby training' so that mum and baby could come to stay with me in an official capacity. This was refused. This then resulted in Mum being taken from hospital within hours of having a difficult birth, made to walk up two flights of stairs to pack her things - without support, and taken to a foster placement. This mothers anxiety was through the roof and after the difficulties she'd experienced through her life ie. domestic violence in the home, rape, child sexual exploitation to name but a few, this was the last thing she needed.

Social Services told mum that if she didn't complete the 3 month placement then the baby would not be going home with her. The placement was "voluntary" so hadn't gone to court and mum was terrified to allow the case to go to court even though I felt that she would be allowed home. I spoke to the solicitor she'd had on legal aid and, to be frank, she was useless. However, she did tell me that if she'd had a pound for every mother who walked out of a placement she would be

extremely rich. The mother I'm talking about, at the height of her anxiety, feeling that 'social services were going to take her baby anyway' did walk from the placement. Fortunately for her she phoned me absolutely distraught and I was able to persuade her to go back immediately. She completed the placement – although social services drew it out blaming Covid, and she's at home with a very well cared for baby girl who is meeting all her milestones and who has a very strong bond with her mother.

This was the first experience I'd had of a young mum going into a mother and baby placement and the anxiety it caused. I am not adverse to this happening where a baby is truly at risk but feel that there is an extremely high risk of babies being taken into care and put up for adoption unnecessarily because the system is extremely flawed and a mothers reaction to extreme anxiety isn't taken into consideration. It is a false environment that the parents are put into and the result is then false as a parent wouldn't walk away from their own home. Parents feel they are doomed to failure and being spied upon so this situation is setting parents up to fail. People will argue that parents should do what is necessary for their child and this is true but what happens if parents feel the child deserves better and they aren't good enough because of their past experiences. I believe these young parents deserve a chance to have a happy family. Support was available for this mum from a qualified person and was ignored. Mum could have had support in the home but this was also refused.

This example mum had somebody to support her when she was feeling anxious – something many care leavers don't have. If we can find out how many babies successfully go home with their care leaver mothers (or don't) then we can ascertain if this is the best way to help these young people. The more children taken into care, the more children at risk of having mental health issues. Just because a parent is care experienced does not mean that they are incapable of being good parents – many deserve to have a happy family and just need some help with this. With the recent launch of the NEST framework I am hoping that the Senedd will agree that this needs to be addressed and help children now and in the future to stay with the people who love them if it is safe for them to do so.

Kind regards,

# Eitem 3.5

**P-06-1162 Rhannu Sir Rhondda Cynon Taf ac uno Cwm Cynon â Sir Merthyr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sian Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 138 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Yn ystod y cyfyngiadau lleol hyn, daeth yn amlwg iawn bod Cwm Cynon (Aberdâr yn bennaf) wedi'i ddatgysylltu'n llwyr oddi wrth weddill Rhondda Cynon Taf. Mae'r holl gyfleusterau lleol yn ein hardal wedi'u symud i Ferthyr, sef ein llys, ein hysbyty, ein cofrestrfa ar gyfer genedigaethau / marwolaethau, ein canolfan siopa, ac yn y blaen. Daeth hyn yn amlwg iawn pan ddywedwyd wrth drigolion Aberdâr na chânt deithio i Ferthyr ond bod yn rhaid iddynt deithio'r holl ffordd i Lantrisant. A ydych chi erioed wedi ceisio mynd i Lantrisant ar drafnidiaeth gyhoeddus?

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae barn gyffredinol yn Aberdâr ein bod ni o dan anfantais wrth ystyried y gwariant sy'n amlwg ym Mhontypridd / Tonysguboriau ac ati oherwydd eu bod nhw yn agosach at y Brifddinas. Mae'r Rhondda yn cael llawer o arian am ei bod wedi'i nodi fel ardal ddifreintiedig, ac mae'n rhaid i drigolion Cwm Cynon godi arian ar gyfer cael unrhyw gyfleusterau, er enghraifft y pad sblasio yn y parc, ac eto cafodd Pontypridd y pwll a'r parc sblasio. Cawsant hwy y rhwydwaith ffordd liniaru o amgylch Pentre'r Eglwys flynyddoedd yn ôl, ac rydyn ni'n dal i aros i'r ffordd gael ei gwneud yn ffordd ddeuol rhyngom ni a Merthyr er ei bod yn cael ei hystyried yn un o'r ffyrdd mwyaf peryglus yn Ne Cymru.

Gyda phoblogaeth Rhondda Cynon Taf y drydedd boblogaeth fwyaf yng Nghymru, ychydig yn llai na dinas Abertawe a dinas Caerdydd, ac yn un o'r ardaloedd mwyaf ar ôl Powys, mae'n amlwg nad yw'r Sir hon yn addas at y diben. Gyda Sir Merthyr, flaengar, rydym o'r farn y byddem yn ffynnu ac yn sir a gâi ei rhedeg yn well, yn enwedig gan fod y cyfyngiadau lleol fel pe baent am fod yn ddigwyddiadau cyffredin yn y dyfodol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru

**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Rhannu Sir Rhondda Cynon Taf ac uno Cwm Cynon â Sir Merthyr

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** RS21/0189

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1162

**Teitl y ddeiseb**: Rhannu Sir Rhondda Cynon Taf ac uno Cwm Cynon â Sir Merthyr

**Geiriad y ddeiseb:** Yn ystod y cyfyngiadau lleol hyn, daeth yn amlwg iawn bod Cwm Cynon (Aberdâr yn bennaf) wedi'i ddatgysylltu'n llwyr oddi wrth weddill Rhondda Cynon Taf. Mae'r holl gyfleusterau lleol yn ein hardal wedi'u symud i Ferthyr, sef ein llys, ein hysbyty, ein cofrestrfa ar gyfer genedigaethau / marwolaethau, ein canolfan siopa, ac ati.

Daeth hyn yn amlwg iawn pan ddywedwyd wrth drigolion Aberdâr na chânt deithio i Ferthyr ond bod yn rhaid iddynt deithio'r holl ffordd i Lantrisant. A ydych chi erioed wedi ceisio mynd i Lantrisant ar drafnidiaeth gyhoeddus?

Mae barn gyffredinol yn Aberdâr ein bod ni o dan anfantais wrth ystyried y gwariant sy'n amlwg ym Mhontypridd / Tonysguboriau ac ati oherwydd eu bod nhw yn agosach at y Brifddinas. Mae'r Rhondda yn cael llawer o arian am ei bod wedi'i nodi fel ardal ddifreintiedig, ac mae'n rhaid i drigolion Cwm Cynon godi arian ar gyfer cael unrhyw gyfleusterau, er enghraifft y pad sblasio yn y parc, ac eto cafodd Pontypridd y pwll a'r parc sblasio. Cawsant hwy y rhwydwaith ffordd liniaru o amgylch Pentre'r Eglwys flynyddoedd yn ôl, ac rydyn ni'n dal i aros i'r ffordd gael ei gwneud yn ffordd ddeuol rhyngom ni a Merthyr er ei bod yn cael ei hystyried yn un o'r ffyrdd mwyaf peryglus yn Ne Cymru.

Gyda phoblogaeth Rhondda Cynon Taf y drydedd boblogaeth fwyaf yng Nghymru, ychydig yn llai na dinas Abertawe a dinas Caerdydd, ac yn un o'r ardaloedd mwyaf ar ôl Powys, mae'n amlwg nad yw'r Sir hon yn addas at y diben.



www.senedd.cymru

Gyda Sir Merthyr, flaengar, rydym o’r farn y byddem yn ffynnu ac yn sir a gâi ei rhedeg yn well, yn enwedig gan fod y cyfyngiadau lleol fel pe baent am fod yn ddigwyddiadau cyffredin yn y dyfodol.

# 1. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (fel y’i diwygiwyd) (“Deddf 2013”) broses gyfreithiol ar gyfer cynnal **adolygiadau o ffiniau a threfniadau etholiadol** yng Nghymru. O dan Ddeddf 2013, sefydlwyd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“y Comisiwn Ffiniau”), sef corff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rôl y Comisiwn Ffiniau yw monitro ac adolygu’r ardaloedd a’r trefniadau etholiadol sy’n berthnasol i’r strwythur llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 14 o Ddeddf 2013 yn rhoi **pŵer cyfarwyddo cyffredinol i Weinidogion Cymru** mewn perthynas â’r Comisiwn Ffiniau. Rhaid i’r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd (boed yn gyffredinol neu’n benodol) a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

## Adolygu Ffiniau’r Prif Ardaloedd

Caiff y Comisiwn Ffiniau, o’i wirfodd neu ar gais un o’r Prif Gynghorau (sef yr awdurdodau lleol), gynnal **adolygiad o un neu ragor o’r prif ardaloedd** (ffiniau’r awdurdodau lleol) yng Nghymru. Mae adran 23 o Ddeddf 2013 yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnal adolygiad o un o’r prif ardaloedd.

Yn dilyn adolygiad o ffiniau prif ardal, rhaid i’r Comisiwn Ffiniau wneud cynigion i Weinidogion Cymru. Yn ei gynigion, gall y Comisiwn Ffiniau gynnig unrhyw newidiadau i brif ardal y mae o’r farn sy’n briodol, gan gynnwys:

- newid y ffin i brif ardal;
- diddymu prif ardal;
- cyfansoddi prif ardal newydd.

Mae’r Comisiwn Ffiniau wedi cyhoeddi canllawiau ar y gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth gynnal adolygiadau o’r prif ardaloedd yng Nghymru. Nid yw wedi cynnal **adolygiad o brif ardal** ers i Ddeddf 2013 gael ei phasio.

## Mathau eraill o adolygiadau ffiniau

Mae gan y Comisiwn Ffiniau bwerau hefyd i adolygu'r **ffiniau cymunedol** sy'n bodoli o fewn ardaloedd awdurdodau lleol, ac i adolygu **siroedd wedi'u cadw** a **ffiniau tua'r môr.** Cafodd yr adolygiad diweddaraf o ffiniau cymunedol ei gynnal yn Sir Fynwy, gydag **Argymhellion Terfynol y Comisiwn Ffiniau** yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2019.

## Adolygu trefniadau etholiadol

Mae Deddf 2013 hefyd yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Ffiniau i gynnal adolygiad o'r **trefniadau etholiadol** ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu. Mae gwefan y Comisiwn Ffiniau yn nodi mai nod adolygiad etholiadol yw sicrhau:

> o fewn pob ardal awdurdod lleol, bod trefniadau etholiadol yn ceisio cyflawni cydraddoldeb. Trwy ddefnyddio strwythur cymunedol presennol awdurdod lleol, bydd arolwg etholiadol yn ystyried hunaniaeth gymunedol, cydraddoldeb etholiadol ac adborth o ymgynghoriadau er mwyn sicrhau bod ein cynigion yn cynnal buddion llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer etholwyr Cymru.

Rhaid i'r Comisiwn Ffiniau gyhoeddi amserlen ar gyfer cynnal pob un o'r 22 o adolygiadau, cyhoeddi cynigion drafft, cynnal ymgynghoriad helaeth, a chyflwyno ei argymhellion terfynol i Weinidogion Cymru. Gellir darllen y wybodaeth ddiweddaraf am y broses gyfredol ar gyfer cynnal adolygiadau etholiadol ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Deddf 2013 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau adolygu. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal adolygiad, neu adolygiad pellach, o ardal benodol yn sgil argymhellion gan y Comisiwn Ffiniau.

Gall y cyfarwyddyd hwn nodi materion penodol y mae Gweinidogion Cymru yn dymuno i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gynnal yr adolygiad.

Mae adran 37 o Ddeddf 2013 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag adolygiad a gynhelir o dan adran 23 (adolygiad o ffiniau prif ardal). Caiff y Gweinidog dan sylw, drwy Orchymyn, 'weithredu unrhyw argymhelliad, **gydag addasiadau neu hebddynt**', neu benderfynu '**peidio â gweithredu'**.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw ddatganiad, nac wedi darparu gwybodaeth, mewn perthynas â'r ddeiseb hon.

# 3. Camau gweithredu'r Senedd

Mae gorchmynion a rheoliadau a wneir o dan adrannau 37 i 39, a 43 o Ddeddf 2013 (ac eithrio adran 37(1) a 41(1)), yn ddarostyngedig i'r gofynion a'r gweithdrefnau a nodir yn yr adrannau hynny ac adrannau cysylltiedig yn unig. Yn ymarferol, yr hyn y mae hyn yn ei olygu yw y gellir meddwl am y rhain fel offerynnau statudol '**dim gweithdrefn** ac, o'r herwydd, nid ydynt yn destun gwaith craffu gan y Senedd drwy naill ai'r weithdrefn negyddol neu gadarnhaol.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y gweithdrefnau penodol a nodir yn yr adrannau perthnasol yn gosod nifer o ofynion sy'n debyg i ofynion craffu, fel ymgynghori â phartïon penodedig, terfynau amser, a lle maent yn cael eu gwneud heblaw gan Lywodraeth Cymru, cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Felly, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu argymhellion y Comisiwn drwy Orchymyn, gydag addasiadau neu hebddynt – neu ddim o gwbl yn dilyn cyfnod o gyflwyno sylwadau.

Nid yw'r mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Senedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

# Eitem 3.6

**P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rachel Wrathall, ar ôl casglu cyfanswm o 88 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun bwrsariaethau i gynyddu nifer y graddedigion o Gymru sy'n aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i astudio gradd meistr mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth (a elwir hefyd yn bynciau 'STEMM'). Ar hyn o bryd mae'r cyllid hwn yn berthnasol i brifysgolion traddodiadol yn unig, sy'n eithrio myfyrwyr sy'n dewis gradd Meistr mewn pwnc STEMM trwy ddarparwyr eraill. Mae hyn yn eithrio rhai myfyrwyr y mae angen mwy o hyblygrwydd arnynt o ran y pwnc STEMM neu sut caiff y cwrs ei gyflwyno.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Argymhellodd adolygiad Diamond y dylid ymdrechu "i alluogi myfyrwyr i astudio yn y modd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau". (Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, 2016).

Ar hyn o bryd nid oes hawl gan fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd Meistr STEMM yn Ysgol yr Amgylchedd yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) ym Machynlleth gael bwrsariaeth STEMM gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyrsiau a ddarperir yn CAT yn canolbwyntio'n benodol ar gynaliadwyedd, sy'n cyd-fynd ag ymdrechion Llywodraeth Cymru i newid cwrs Cymru tuag at lwybr mwy cynaliadwy (e.e. trwy'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Mae dull addysgu hyblyg yn CAT, ac yn wahanol i brifysgolion traddodiadol, mae'n galluogi myfyrwyr i astudio ar gyfer gradd Meistr a addysgir gan barhau â'u gwaith/cyfrifoldebau gofalu.

Credwn fod eithrio myfyrwyr STEMM mewn sefydliadau fel CAT rhag gallu cael arian bwrsariaeth STEMM yn mynd yn groes i nodau'r polisi bwrsariaeth STEMM.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

# Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/189-6

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1163

**Teitl y ddeiseb**: Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru.

**Geiriad y ddeiseb:** Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun bwrsariaethau i gynyddu nifer y graddedigion o Gymru sy'n aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i astudio gradd meistr mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth (a elwir hefyd yn byncia 'STEMM'). Ar hyn o bryd mae'r cyllid hwn yn berthnasol i brifysgolion traddodiadol yn unig, sy'n eithrio myfyrwyr sy'n dewis gradd Meistr mewn pwnc STEMM trwy ddarparwyr eraill. Mae hyn yn eithrio rhai myfyrwyr y mae angen mwy o hyblygrwydd arnynt o ran y pwnc STEMM neu sut caiff y cwrs ei gyflwyno.

## 1. Pwyntiau Allweddol

Ym mis Awst 2019, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dri chymhelliad newydd** i fyfyrwyr wneud eu gradd Meistr yng Nghymru. Un o'r cymhellion hynny oedd bwrsariaeth o £2,000 i raddedigion o bob oed astudio yng Nghymru ar gyfer gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth (STEMM) – dyma'r cynllun y mae'r ddeiseb yn cyfeirio ato.

Cyhoeddwyd bryd hynny y byddai'r cymhellion yn cael eu rhoi i ddarparwyr addysg uwch Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, er y gall myfyrwyr ar gyrsiau lefel Meistr penodol a addysgir yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen (y darparwr y cyfeirir ato yn y ddeiseb) gael cymorth ariannol ar gyfer ffioedd a chynhaliaeth, nid yw'r darparwr ei hun, sef y Ganolfan Dechnoleg Amgen, yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus gan CCAUC.

Y rheswm am hyn yw nad yw'r Ganolfan Dechnoleg Amgen yn bodloni'r diffiniad o sefydliad addysg uwch sydd ei angen i ganiatáu i CCAUC ei ariannu. Felly, nid yw CCAUC yn gallu dyrannu cyllid cynllun cymhelliant i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (a darparwyr amgen tebyg eraill) ar gyfer ei chyrsiau Meistr perthnasol.

Er mwyn caniatáu i CCAUC ystyried dyrannu arian cyhoeddus i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen a darparwyr amgen tebyg yng Nghymru, byddai angen i'r Ganolfan geisio cael ei ddynodi gan Lywodraeth Cymru fel sefydliad addysg uwch gan ddefnyddio pwerau o dan Adran 129 o **Ddeddf Diwygio Addysg 1988**.

Mae CCAUC wedi nodi sail y dyraniad parhaus o gynllun cymhelliant Meistr STEMM **yn y cylchlythyr hwn**, a nodir y sail gyffredinol a ddefnyddir ar gyfer ariannu ym mharagraff 6 o'r **cylchlythyr hwn**.

# 2. Manylion pellach

Mae cyllid cyhoeddus ar gyfer darpariaeth addysg uwch a chymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch yn fater cymhleth. Mae'r gyfraith yn golygu y gall myfyrwyr gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ddilyn cwrs, ond nid yw'r darparwr ei hun yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus yn uniongyrchol. Y rheswm am hyn yw bod y gyfraith sy'n ymwneud â darparwyr cyllid, a'r gyfraith o ran dyfarnu cymorth ariannol i fyfyrwyr, yn faterion ar wahân.

## 2.1. Darparwyr cyllid

Mae cyllid cyhoeddus yn cael ei roi i ddarparwyr gan CCAUC gan ddefnyddio pwerau a nodir yn **Neddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992** (Deddf 1992). Mae'r pwerau hyn yn cynnwys natur benodol y gweithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid a'r mathau penodol o sefydliadau y gellir rhoi cyllid iddynt. Y gweithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid yw'r rhai a gyflawnir gan 'Sefydliadau Addysg Uwch' yn bennaf.

Felly, y prawf allweddol yn y sefyllfa hon o dan Ddeddf 1992 yw os daw darparwr o fewn y diffiniad o 'Sefydliad Addysg Uwch'. Mae Adran 65(5) o Ddeddf 1992 yn diffinio sefydliad addysg uwch fel 'prifysgol, sefydliad a gynhelir gan gorfforaeth addysg uwch neu sefydliad dynodedig.'

Ar hyn o bryd, nid yw’r Ganolfan Dechnoleg Amgen yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r diffiniadau hynny o Sefydliad Addysg Uwch. Mater i Lywodraeth Cymru felly (gan ddefnyddio ei phwerau o dan **Adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988**) fyddai penderfynu a ddylid ei ddynodi'n sefydliad sy'n gymwys i gael arian gan CCAUC ai peidio.

## 2.2. Cyllid i fyfyrwyr

Mae cyllid cyhoeddus ar gael i fyfyrwyr ar gyfer ffioedd dysgu a chynhaliaeth o dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a wnaed gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio ei phwerau o dan **Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**. Gwneir hyn drwy ‘ddynodi’ cyrsiau i fod yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr. Gall dynodiadau naill ai fod yn awtomatig mewn rhai amgylchiadau, neu rhaid i ddarparwr ofyn i Lywodraeth Cymru ddynodi pob cwrs yn unigol (proses y mae CCAUC yn gyfrifol amdani ar ran Llywodraeth Cymru).

Yn yr achos hwn, nid yw cyrsiau’r Ganolfan Dechnoleg Amgen yn cael eu dynodi'n awtomatig, ac felly mae wedi gwneud cais llwyddiannus i rywfaint o'i ddarpariaeth Meistr gael ei dynodi'n benodol gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau o'r fath gael mynediad at **becyn cymorth Cyllid Meistr Llywodraeth Cymru**. Byddai angen i'r rhan fwyaf o ddarparwyr amgen ddilyn yr un broses er mwyn galluogi eu myfyrwyr i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

# 3. Casgliad

Gall myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau Meistr penodol sydd wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cymorth ariannol i fyfyrwyr dderbyn y pecyn Cyllid Meistr. Bydd hyn yn wir yn achos darparwyr amgen eraill yng Nghymru sydd hefyd wedi dynodi eu cyrsiau at ddibenion cymorth ariannol i fyfyrwyr (naill ai'n awtomatig neu'n unigol).

Ond gan nad yw’r Ganolfan Dechnoleg Amgen yn dod o fewn y diffiniad o Sefydliad Addysg Uwch, a chan nad yw wedi'i dynodi felly gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio ei phwerau o dan Ddeddf 1988, ni all dderbyn cyllid drwy gynllun cymhelliant STEMM CCAUC ar hyn o bryd. O dan y gyfraith bresennol, mater i’r Ganolfan Dechnoleg Amgen, neu unrhyw ddarparwr arall yn yr un sefyllfa, yw ceisio cael ei dynodi felly gan Lywodraeth Cymru, ac i Lywodraeth Cymru wneud y dynodiad. Gall y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflwyno i'r Senedd hon ddiwygio’r gofynion i sefydliad fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus yn y dyfodol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1164 Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Alanna Louise Virk, ar ôl casglu cyfanswm o 94 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae gormod o blant yn dioddef mewn distawrwydd, yn hunan-niweidio neu'n cyflawni hunanladdiad. Nid yw annog plant i fod yn garedig wrth ei gilydd yn gweithio. Nid yw bwlis yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. Dylid gwneud bwlio ac aflonyddu yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol (10 oed+).

**Gwybodaeth Ychwanegol:**
Yn amlach na pheidio y dioddefwyr a'u teuluoedd sy'n gorfod ymdopi â chanlyniadau bwlio, nid y bwlis. Mae llawer o blant yn cyflawni hunanladdiad neu yn cael eu bywydau wedi'u dinistrio, ond mae bwlis yn byw gweddill eu bywydau heb wynebu unrhyw ganlyniadau am eu gweithredoedd. Yn aml ni fydd plant yn codi llais oherwydd eu bod yn teimlo'n ddi-rym ac yn credu nad oes modd atal y bwlio. Os byddai hyn yn gyfraith yna fe allai plant deimlo'n fwy hyderus i godi llais yn erbyn eu bwlis. Mae bwlio ac aflonyddu yn y gweithle wedi'i warchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pam na all plant gael yr un amddiffyniad?

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Wrecsam
- Gogledd Cymru

**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0189

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1164

**Teitl y ddeiseb**: Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol

**Geiriad y ddeiseb:** Mae gormod o blant yn dioddef mewn distawrwydd, yn hunan-niweidio neu'n cyflawni hunanladdiad. Nid yw annog plant i fod yn garedig wrth ei gilydd yn gweithio. Nid yw bwlis yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. Dylid gwneud bwlio ac aflonyddu yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol (10 oed+).

Yn amlach na pheidio y dioddefwyr a'u teuluoedd sy'n gorfod ymdopi â chanlyniadau bwlio, nid y bwlis. Mae llawer o blant yn cyflawni hunanladdiad neu yn cael eu bywydau wedi'u dinistrio, ond mae bwlis yn byw gweddill eu bywydau heb wynebu unrhyw ganlyniadau am eu gweithredoedd. Yn aml ni fydd plant yn codi llais oherwydd eu bod yn teimlo'n ddi-rym ac yn credu nad oes modd atal y bwlio. Os byddai hyn yn gyfraith yna fe allai plant deimlo'n fwy hyderus i godi llais yn erbyn eu bwlis. Mae bwlio ac aflonyddu yn y gweithle wedi'i warchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pam na all plant gael yr un amddiffyniad?

# 1. Cefndir

## 1.1. Dyletswyddau cyfreithiol

Mae amrediad o ddeddfwriaeth yn gymwys yng Nghymru sydd â’r nod o amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin, gan gynnwys cael eu bwlio:

- Mae Deddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd gofal ar ysgolion i amddiffyn eu holl ddysgwyr ac i ddarparu amgylchedd diogel, iach.
- Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod rhwymedigaethau ar ysgolion i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu, a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Mae Deddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.
- Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir bennu mesurau i annog ymddygiad da a pharch tuag at eraill, ac i atal pob math o fwlio ymhlith dysgwyr.

Yn ogystal, gallai rhai gweithgareddau bwlio ar-lein fod yn droseddau o dan nifer o wahanol gyfreithiau, gan gynnwys Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 a Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997.

Yng Nghymru a Lloegr, yr oedran cyfrifoldeb troseddol yw 10 oed.  Gellir arestio plant rhwng 10 a 17 oed a'u dwyn gerbron y llys os ydynt yn cyflawni trosedd.

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Yng Nghymru, mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi’r ddeddfwriaeth dan sylw. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir** ym mis Tachwedd 2019. Roedd y ddogfen hon yn disodli'r canllawiau anstatudol a gyhoeddwyd yn flaenorol, sef ‘Parchu Eraill’.

Rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw dyledus i’r canllawiau statudol hyn wrth arfer eu swyddogaethau ynghylch y dull o reoli ysgol a gwneud trefniadau ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant a phobl ifanc sy’n ddysgwyr yn yr ysgol.  Rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau statudol wrth arfer eu swyddogaethau o ran hybu ymddygiad da a disgyblaeth dda mewn ysgolion. Mae'r canllawiau'n nodi:

> ...bydd yn rhaid i'r pennaeth weithredu yn unol â'r polisi ymddygiad, rhywbeth y mae Deddf [Addysg ac Arolygiadau] 2006 yn nodi y dylai pob ysgol ei sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i weithdrefnau sy'n amlinellu sut bydd ysgol yn mynd i'r afael â bwlio a strategaethau i herio ymddygiad bwlïaidd gael eu nodi'n glir ym mholisi gwrth-fwlio ysgol.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y gallai rhai achosion o fwlio fod yn faterion diogelu neu'n faterion lle mae angen cysylltu â'r heddlu. Mae'r canllawiau'n dweud:

> Dylid hysbysu'r heddlu cyn gynted ag y bo modd os amheuir bod tramgwydd troseddol wedi cael ei chyflawni yn erbyn plentyn neu berson ifanc.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Rhwng 2019 a 2020, bu'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried deiseb, **P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion**, a oedd yn galw am fframwaith gwrth-fwlio safonol a allai gael ei orfodi drwy'r gyfraith, ac yn gofyn bod achosion o fwlio yn cael eu cofnodi a bod gweithredu'n digwydd yn eu cylch. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Kirsty Williams, sef y Gweinidog Addysg ar y pryd, a gofynnodd am dystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru ac elusennau plant. Roedd y Comisiynydd Plant yn fodlon â statws statudol y canllawiau gwrth-fwlio newydd. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd fawr ddim pellach y gallai'r Pwyllgor ei gyflawni bryd hynny, a chytunodd i gau'r ddeiseb.

# 4. Camau gweithredu gan Senedd y DU

Yn 2018, trafododd Pwyllgor Deisebau Senedd y DU ddeiseb berthnasol, sef Make Bullying a Criminal Offence. Roedd ymateb Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

> Laws are already in place to protect people when bullying behaviour constitutes a criminal offence. The government does not plan to introduce additional legislation for bullying behaviour.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1165 Dylid gwahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Russell Gwilym Morris, ar ôl casglu cyfanswm o 91 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar y Senedd i wahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd. Gweithle yw'r Senedd ac nid yw'r rhan fwyaf o weithleoedd yn caniatáu alcohol yn eu safleoedd. Mae llawer o sefydliadau yn y brifddinas hefyd lle gall Aelodau o'r Senedd fynd iddynt i ymlacio ar ôl diwrnod o waith, fel sy'n wir i weddill dinasyddion Cymru.

Mae pobl eisoes yn teimlo bod diwylliant o 'y nhw a ni' mewn gwleidyddiaeth, a byddai hyn o gymorth i newid ychydig ar y canfyddiad hwnnw.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru

Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

# Dylid gwahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0089-8

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1165

**Teitl y ddeiseb**: Dylid gwahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar y Senedd i wahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd.  Gweithle yw'r Senedd ac nid yw’r rhan fwyaf o weithleoedd yn caniatáu alcohol yn eu safleoedd.  Mae llawer o sefydliadau yn y brifddinas hefyd lle gall Aelodau o'r Senedd fynd iddynt i ymlacio ar ôl diwrnod o waith, fel sy’n wir i weddill dinasyddion Cymru.

Mae pobl eisoes yn teimlo bod diwylliant o ‘y nhw a ni’ mewn gwleidyddiaeth, a byddai hyn o gymorth i newid ychydig ar y canfyddiad hwnnw.



www.senedd.cymru

# 1. Cefndir

Mater i Gomisiwn y Senedd yw rheoli ystâd y Senedd, gan gynnwys gosod unrhyw gyfyngiadau ar werthu ac yfed alcohol.

Mae'r gwasanaethau arlwyo a ddarperir yn y Senedd yn cael eu darparu gan **gontractwr allanol**, sef Charlton House & Co Group ("Charlton").

O dan y contract hwnnw, mae Charlton yn rheoli bwyty, siop goffi, parlyrau te, a chaffi cyhoeddus y Senedd. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau arlwyo ar gyfer digwyddiadau'r Senedd a'i gweithgareddau lletygarwch. Mae gan Charlton **drwydded** i weini alcohol ar safle'r Senedd.

# 2. Y polisi alcohol ar ystâd y Senedd

Cyflwynodd y Senedd bolisi ym mis Medi 2014 **yn nodi** na fyddai unrhyw alcohol yn cael ei weini ar yr ystâd cyn 18:00.

Mae polisi Comisiwn y Senedd ar gyfer defnyddio Ystâd y Cynulliad[1] yn nodi:

> 14.1 **Ni chaiff ein trwyddedeion werthu na gweini alcohol** i'w yfed ar ystâd y Cynulliad **cyn 6pm yn ystod yr wythnos yn ystod y tymor.** Os nad yw'r Cynulliad yn eistedd, efallai y bydd y rheolau hyn yn cael eu llacio ar adegau, ond dim ond gyda chydsyniad datganedig y Llywydd y gellir gwneud cais amdano drwy'r tîm Lleoliadau. [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil.]

Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y **cod ymddygiad ar gyfer ymwelwyr** i'r Senedd.

[1] Mae hon yn ddogfen fewnol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1166 Darparu grantiau di-dreth i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau a darparu cyllid grant i leoliadau celfyddydol.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Natalie Bowen, ar ôl casglu cyfanswm o 50 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ar hyn o byrd, mae llywodraeth y DU yn annog pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau i ailhyfforddi. Rydym ni'n credu fod hyn yn gamsynied ac y dylai pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau gael grantiau i'w galluogi i barhau i ddiddanu pobl. Y celfyddydau yw enaid ein cymuned a dylem eu cefnogi'n ariannol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Rhondda
- Canol De Cymru

Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

# Darparu grantiau di-dreth i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau a darparu cyllid grant i leoliadau celfyddydol

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** RS21/0189-9

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1166

**Teitl y ddeiseb**: Darparu grantiau di-dreth i bobl sy’n gweithio yn y celfyddydau a darparu cyllid grant i leoliadau celfyddydol

**Geiriad y ddeiseb:** Ar hyn o byrd, mae llywodraeth y DU yn annog pobl sy’n gweithio yn y celfyddydau i ailhyfforddi. Rydym ni’n credu fod hyn yn gamsynied ac y dylai pobl sy’n gweithio yn y celfyddydau gael grantiau i’w galluogi i barhau i ddiddanu pobl. Y celfyddydau yw enaid ein cymuned a dylem eu cefnogi’n ariannol.



www.senedd.cymru

# 1. Cefndir

Dosberthir cyllid y celfyddydau yng Nghymru yn bennaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n dosbarthu cyllid, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, i leoliadau celfyddydol, sefydliadau ac ymarferwyr.

Nid yw cyrff sy'n darparu cyllid grant yn pennu statws treth y cyllid hwnnw. Mae trethiant fel arfer yn fater a gedwir yn ôl, ac mae'n cael ei benderfynu gan Senedd y DU a'r Trysorlys.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

## 2.1. Cefnogaeth i'r celfyddydau

Yng **nghyllideb 2021-22** dyrannodd Llywodraeth Cymru £43 miliwn i Gyngor y Celfyddydau. Mae hyn yn gynnydd o 30 y cant o **gyllideb derfynol 2020-21** a oedd yn ddyraniad o £33 miliwn. Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio'r cyllid hwn yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan Lywodraeth Cymru.

Drwy gydol y pandemig darparwyd cyllid penodol i leoliadau celfyddydau, sefydliadau ac ymarferwyr yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gronfa Adferiad Diwylliannol**. Roedd hyn ar ôl i Lywodraeth Cymru gael £59 miliwn mewn cyllid canlyniadol o becyn cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant yn Lloegr. I ddechrau, dyrannodd Llywodraeth Cymru £53 miliwn i'r gronfa hon, cyn ychwanegu cyllid pellach yn ystod y misoedd dilynol. Mae cyllid Cymru yn cael ei ddosbarthu gan y Cyngor Celfyddydau, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi **dweud** bod y gronfa hon wedi darparu “£63.3 miliwn yn 2020 i 2021 i gefnogi theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, sinemâu annibynnol a gweithwyr llawrydd.”

Roedd yn cynnwys tair prif elfen. Gweinyddodd Cyngor y Celfyddydau gyllid o dros £18 miliwn i gefnogi 170 o sefydliadau, gan gefnogi theatrau ac orielau celf cenedlaethol a lleol. Mae dros 1,000 o swyddi wedi'u cefnogi.

Darparodd y Gronfa Gweithwyr Llawrydd gyfanswm o £18 miliwn o gymorth grant i 3,500 o weithwyr llawrydd nad oeddent wedi gallu gweithio yn ystod y pandemig. Dosbarthwyd yr arian hwn gan awdurdodau lleol.

Darparodd yr elfen o'r gronfa a weinyddir gan Lywodraeth Cymru £27 miliwn i gefnogi'r sectorau diwylliant, creadigol, digwyddiadau a threftadaeth. Derbyniodd dros 500 o sefydliadau gyllid.

Ym mis Mawrth 2021, **ymestynnodd** Llywodraeth Cymru y Gronfa Adferiad Diwylliannol gyda 'hyd at £30 miliwn' o gyllid ychwanegol.

## 2.2. Statws treth grantiau

Nid yw cyrff sy'n darparu cyllid grant yn pennu statws treth y cyllid hwnnw. Mae trethiant fel arfer yn fater a gedwir yn ôl, ac mae'n cael ei benderfynu gan Senedd y DU a'r Trysorlys.

Cafodd hyn ei ddangos gan **daliad ychwanegol o £500** Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2020 ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Roedd **sylw yn y cyfryngau** ym mis Mehefin 2020, a nododd y bydd cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol yn daladwy ar y taliad o £500. Yn y **cyhoeddiad gwreiddiol ar 1 Mai**, roedd y Prif Weinidog wedi galw ar Lywodraeth y DU i beidio â threthu'r taliad ychwanegol, gan alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i gadw'r swm llawn, a nododd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau nad oedd yn effeithio ar hawliau pobl i fudd-daliadau. Nododd yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau EM wedi dweud eu bod yn gweithio gyda'i gilydd, ond heb unrhyw ateb, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i Lywodraeth Cymru sut yr hoffai symud ymlaen.

Fodd bynnag, cynhaliodd Trysorlys EM ei safle, a **threthwyd gweithwyr gofal cymdeithasol** ar y bonws o £500.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Edrychodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd flaenorol ar effaith y pandemig ar y celfyddydau. Roedd y cyhoeddiadau perthnasol yn cynnwys:

- **Effaith argyfwng Covid-19 ar y sector celfyddydau** (Mehefin 2020)
- **Clyw fy nghân: ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw** (Rhagfyr 2020)
- **Adrodd ar waith pellach ar effaith Covid-19 ar y celfyddydau** (Rhagfyr 2020)

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Eitem 3.10

**P-06-1167 Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Matthew Sutton, ar ôl casglu cyfanswm o 138 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae'r coronafeirws wedi effeithio'n sylweddol ar bob busnes ledled Cymru, ond mae wedi cael effaith ariannol enfawr ar y diwydiant teithio a thwristiaeth ers y dechrau.

O'r rheol 5 milltir wreiddiol, i gael caniatâd i fasnachu am 7 wythnos yn unig, a bellach mae cyfyngiadau teithio lleol wedi cael eu gosod eto ar draws rhannau helaeth o Gymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**
Mae'r diwydiant twristiaeth, yn enwedig gwyliau bysiau, yn mynd â phobl i lan y môr, i drefi ac i ddinasoedd, gan roi digonedd o arian i fusnesau lletygarwch a manwerthu lleol.

Ychydig iawn o arian gawson ni, ac ni fydd y cyhoeddiad diweddaraf ynghylch y Gronfa Cadernid Economaidd yn ddigon i gefnogi'r holl fusnesau ledled Cymru y mae angen y gefnogaeth arnynt.

Mae pecynnau cymorth wedi'u rhoi ar waith ar gyfer llawer o fathau o fusnesau, ond mae'n ymddangos mai ein maes ni sydd wedi'i effeithio waethaf ac sydd wedi cael y lleiaf o gymorth.

Rydym yn gofyn yn garedig am eich cefnogaeth i annog Llywodraeth Cymru i drafod cynllun i helpu ein diwydiant i oroesi'r pandemig hwn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru

# Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0194-10

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1167

**Teitl y ddeiseb**: Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r coronafeirws wedi effeithio'n sylweddol ar bob busnes ledled Cymru, ond mae wedi cael effaith ariannol enfawr ar y diwydiant teithio a thwristiaeth ers y dechrau.

O'r rheol 5 milltir wreiddiol, i gael caniatâd i fasnachu am 7 wythnos yn unig, a bellach mae cyfyngiadau teithio lleol wedi cael eu gosod eto ar draws rhannau helaeth o Gymru.

Mae'r diwydiant twristiaeth, yn enwedig gwyliau bysiau, yn mynd â phobl i lan y môr, i drefi ac i ddinasoedd, gan roi digonedd o arian i fusnesau lletygarwch a manwerthu lleol.

Ychydig iawn o arian gawson ni, ac ni fydd y cyhoeddiad diweddaraf ynghylch y Gronfa Cadernid Economaidd yn ddigon i gefnogi'r holl fusnesau ledled Cymru y mae angen y gefnogaeth arnynt.

Mae pecynnau cymorth wedi'u rhoi ar waith ar gyfer llawer o fathau o fusnesau, ond mae'n ymddangos mai ein maes ni sydd wedi'i effeithio waethaf ac sydd wedi cael y lleiaf o gymorth.

Rydym yn gofyn yn garedig am eich cefnogaeth i annog Llywodraeth Cymru i drafod cynllun i helpu ein diwydiant i oroesi'r pandemig hwn.

# 1. Y cefndir

Canfu'r arolwg baromedr twristiaeth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru fod **tua chwarter y busnesau yn y sector twristiaeth yng Nghymru wedi colli dros 80 y cant o'u refeniw arferol yn 2020**, a bod dros hanner y busnesau yn y sector wedi gweld eu refeniw yn gostwng mwy na 60 y cant. Gan dynnu sylw at yr heriau aruthrol y mae'r sector yn eu hwynebu, mae'r gwaith ymchwil yn nodi mai **dim ond 43 y cant o fusnesau twristiaeth sy'n disgwyl goroesi y tu hwnt i'r chwe mis nesaf**.

Mae Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr (CPT) Cymru, sy'n cynrychioli gweithredwyr bysiau a choetsys ledled Cymru, wedi nodi yn eu strategaeth coetsys ar gyfer Cymru:

> The Covid-19 pandemic has had a devastating impact on an industry that is normally fundamentally healthy and profitable. However, with lockdown restrictions gradually easing, it is likely that trips can get underway this summer and is an opportunity for the industry to play a leading role in Wales economic recovery.

Roedd Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru yn amlygu hefyd bod 8 o bob 10 gweithredwr coetsys yn y DU wedi gweld eu trosiant yn lleihau o leiaf 50 y cant yn ystod y pandemig, a bod 2 o bob 10 gweithredwr wedi gweld trosiant yn lleihau o leiaf 90 y cant.

Cyhoeddwyd Llwybr Newydd, sef strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2021 ac mae'n nodi cynlluniau bach ar gyfer cefnogi gwahanol sectorau trafnidiaeth i gyflawni blaenoriaethau hirdymor Llywodraeth Cymru. Mae'n ymdrin â gwasanaethau bysiau, ond nid yw'n ymdrin â gwasanaethau coetsys.

Gan edrych yn benodol ar y sector twristiaeth, mae'r ddogfen Dewch i Lunio'r Dyfodol yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ail-greu o ran yr economi. O ran masnach teithio, mae'n nodi bod effeithiau penodol, gan gynnwys:

- Rôl ganolog atyniadau ymwelwyr yn y daith a thaith gwyliau bysiau moethus; os nad yw rhai atyniadau yn ailagor neu'n cyfyngu mynediad – megis i grwpiau – a fydd yn creu problemau i weithredwyr anrhydeddu eu teithiau / gwyliau a hysbysebir;

- Gall materion cadwyn gyflenwi posibl ledled y sector amharu ar ail-gychwyn llwyddiannus ymhellach y busnes masnach teithio yn 2021 a thu hwn

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi busnesau ar ffurf nifer o wahanol ffrydiau cyllido ers dechrau'r pandemig**. Bu amrywiaeth o feini prawf cymhwysedd ynghlwm â’r cronfeydd hyn, a fydd wedi penderfynu a fydd busnesau teithio a thwristiaeth unigol wedi gallu cael cefnogaeth. Er ei bod wedi darparu cefnogaeth sector-benodol i'r sector bysiau, ni fydd gweithredwyr coetsys nad ydynt yn cynnig gwasanaethau bysiau cyhoeddus nac yn gweithredu trafnidiaeth ysgol wedi cael dim cefnogaeth sector-benodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu pam mae o’r farn bod y gefnogaeth fusnes y mae wedi'i chynnig yn ystod y pandemig yn fwy hael na'r hyn a oedd ar gael yn Lloegr.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grantiau ar gyfer busnesau sy'n talu ardrethi busnes. Cafodd yr holl fusnesau a oedd yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (hynny yw, ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000) grant o £10,000, ar gyfer hyd at ddau eiddo fesul ardal awdurdod lleol. Cafodd busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden cymwys mewn eiddo sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000 grant o £25,000.

Yn ystod misoedd cyntaf y pandemig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau gam o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Roedd y gronfa hon yn darparu cymorth i fusnesau na chawsant gefnogaeth drwy gynlluniau eraill Cymru neu Lywodraeth y DU, yn seiliedig ar nifer y bobl yr oeddent yn eu cyflogi.

Ym mis Hydref 2020, darparwyd dau grant arall drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd. Cynorthwyodd y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan y ‘cyfnod atal byr' rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd. Roedd yn darparu grantiau o hyd at £5,000 i fusnesau a oedd yn talu ardrethi busnes, a grantiau dewisol o hyd at £2,000 i fusnesau eraill yr effeithiwyd arnynt. I gefnogi busnesau ag adferiad economaidd a chynaliadwyedd yn y dyfodol, roedd Grantiau Datblygu Busnes o hyd at £200,000 ar gael, a neilltuwyd £20 miliwn o'r cyllid a oedd ar gael ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch.

Rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddwy rownd o gyllid drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd. Roedd un o'r rhain yn cefnogi busnesau mewn sectorau yr effeithiwyd arnynt sy'n talu ardrethi busnes a'u cadwyni cyflenwi yr oedd y cyfnod atal byr a'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn effeithio arnynt, gan ddarparu grantiau o hyd at £10,000. Roedd y llall yn darparu grantiau dewisol o hyd at £4,000 i fusnesau mewn sectorau yr effeithiwyd arnynt nad ydynt yn talu ardrethi busnes a’u cadwyni cyflenwi, ac yr effeithiodd y cyfyngiadau arnynt.

Rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy rownd o Grant Sector-Benodol y Gronfa Cadernid Economaidd, a gefnogodd fusnesau cymwys yn y sector

twristiaeth, y sector lletygarwch a'r sector hamdden. Roedd y **rownd gyntaf** yn cefnogi busnesau cymwys o bob maint, gan ddarparu cefnogaeth yn ôl nifer y staff a gyflogwyd gan fusnes. Roedd yr **ail rownd** yn darparu cefnogaeth i fusnesau cymwys a oedd yn cyflogi o leiaf 10 aelod o staff amser llawn.

Ym mis Mawrth 2021 darparodd Llywodraeth Cymru **gefnogaeth ychwanegol** o hyd at £5,000 i fusnesau cymwys mewn sectorau yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau parhaus sy'n talu ardrethi busnes.

Ym mis Mai 2021, ar ôl etholiadau'r Senedd, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth** o rhwng £2,500 a £25,000 ar gyfer busnesau y mae'r coronafeirws yn parhau i effeithio arnynt. Yn dilyn hynny, **penderfynodd** Llywodraeth Cymru hefyd y byddai busnesau cymwys yr effeithiwyd arnynt gan y camau i symud yn raddol i Lefel Rhybudd 1 yn cael taliad ychwanegol o rhwng £875 a £5,000, yn dibynnu ar eu maint a'u hamgylchiadau, i gwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Mehefin.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Edrychodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd yn ofalus ar effaith y pandemig ar y sector twristiaeth yn ei ymchwiliad i **Adferiad hirdymor yn sgîl Covid-19**. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod angen teilwra cefnogaeth ar gyfer adferiad i fynd i'r afael â materion penodol, fel twristiaeth, a ddisgrifiwyd gan Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru fel sector sy'n mynd trwy 'dri gaeaf'.

Roedd y Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

> **Argymhelliad 24:** Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth sector-benodol parhaus ar gyfer sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed fel manwerthu nad yw'n hanfodol, gwallt a harddwch, twristiaeth a lletygarwch, y celfyddydau a diwylliant. Dylai nodi ei gynigion ar gyfer gwneud hyn yn 2021-22, gan egluro lle bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.
>
> **Argymhelliad 26:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ar strategaeth rheoli cyrchfannau, gan gynnwys datblygu ymgyrchoedd i ddenu pobl i Gymru ar gyfer tymor 2021 mewn ffordd gynaliadwy i fusnesau a chymunedau.

# 4. Cefnogaeth sector-benodol i weithredwyr coetsys yng ngweddill y DU

Mae Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr (CPT) Cymru wedi **galw am** i Lywodraeth Cymru **gyflwyno Cronfa Adferiad Coetsys i ddarparu £7.5 miliwn fel cymorth wedi'i dargedu i weithredwyr coetsys tra bod rheolau cadw pellter cymdeithasol ar waith**. Mae'n awgrymu y dylai'r gronfa hon fod yn seiliedig ar y gefnogaeth sydd ar gael yn yr Alban. Mae wedi **gofyn hefyd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw rowndiau cyllido yn y dyfodol, fel y Gronfa Cadernid Economaidd, yn agored i weithredwyr coetsys**.

Caiff **Cronfa Gweithredwyr Coetsys yr Alban** ei gweinyddu gan Visit Scotland ar ran Llywodraeth yr Alban. **Sefydlwyd** y Gronfa hon i helpu i gefnogi gweithredwyr teithiau coetsys tra bod cyfyngiadau ar deithio yn dal ar waith, a'u helpu i baratoi i ailgychwyn gweithrediadau pan godir y cyfyngiadau. Mae'n darparu cymorth wedi'i dargedu i gynorthwyo busnesau sy'n gweithredu'r fflyd cerbydau mwyaf newydd a mwyaf cyfeillgar i'r amgylchedd, ac mae'n cynnwys rhai **meini prawf cymhwysedd eraill**.

Darparodd y **rhan gyntaf** o'r cyllid hwn £8.3 miliwn i weithredwyr coetsys y mae twristiaeth coetsys a llogi coetsys preifat yn cyfrif am ragor na 55 y cant o gyfanswm eu trosiant. Darparodd yr **ail ran** £1.6 miliwn i gefnogi gweithredwyr coetsys y mae twristiaeth coetsys a llogi coetsys preifat yn cyfrif am ragor na 40 y cant o gyfanswm eu trosiant.

Mae Gogledd Iwerddon hefyd wedi darparu cefnogaeth i weithredwyr bysiau a choetsys drwy ddwy rownd o'r **Cynllun Cymorth Ariannol i Weithredwyr Bysiau**. Roedd y cynllun hwn yn cefnogi gweithredwyr bysiau a choetsys gyda chostau gorbenion a threuliau parhaus. Roedd yr arian ar gyfer gweithredwyr pan mae eu prif weithgaredd busnes yw cludo teithwyr a'u bagiau ac y maent wedi dioddef effaith andwyol sylweddol ar eu hincwm yn sgîl colli busnes oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

# Eitem 3.11

**P-06-1168 Ystyriwch ail-wneud y flwyddyn academaidd gyfredol hon ar gyfer myfyrwyr ar draws cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Hayley Whittington-Pike, ar ôl casglu cyfanswm o 184 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
I am yet to see money being put into services and services improving and coping with waiting times and assessments, because of this pandemic most assessments are done over phone or video, again this is not always helpful for certain people who maybe deal with complex mental health needs, more face to face appointments need to become available.

I am saddened that even though I have been referred to MIND which I know have an increasing waiting list that I am still being thrown pillar to post within the mental health side of things and no communication this causes certain individuals like myself to become lost in the system.

I will keep fighting and I will keep pushing for better mental health services for our future generation and the current generation our elderly and our children I feel very passionate about mental health and how going forward their needs to be a massive change to our services.

More awareness needs to be made of mental health.

I hope my comments can be of help and I hope moving forward their can be some positive outcomes to come of this petition.

Thank you.

# Eitem 4.4

**P-05-1147 Dylid ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddarparu addysg fyw/addysg wedi'i recordio bob dydd i bob disgybl nad yw’n dychwelyd i'r ysgol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Catherine Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 308 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae ysgolion o hyd sy'n honni bod rhwystrau anorchfygol o ran darparu gwersi, bum wythnos i mewn i'r tymor ac am saith wythnos o'r flwyddyn academaidd hon. Nid yw hyn yn dderbyniol mwyach. Rhaid i bob plentyn gael mynediad cyfartal at addysg. Rhaid dod o hyd i atebion i'r rhwystrau hynny a rhaid addysgu pob disgybl.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1147
Ein cyf/Our ref KW/02173/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Ebrill 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar ran y Pwyllgor Deisebau, yn gofyn am sylwadau ar y materion a godwyd yn Neiseb P-05-1147 ynghylch ystyried yr opsiynau sydd ar gael i rieni godi pryderon yn y dyfodol am wersi byw gydag awdurdodau lleol.

Gadewch imi eich sicrhau fy mod yn ymwybodol o'r effaith sylweddol y gall colli ysgol ei chael ar ddatblygiad, iechyd meddwl a lles ein pobl ifanc. Dyna pam ar 31 Mawrth, fel rhan o'r adolygiad 21 diwrnod diweddaraf, y nododd y Prif Weinidog unwaith eto bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau y bydd pob plentyn a myfyriwr yng Nghymru yn dychwelyd i addysg wyneb yn wyneb ddydd Llun 12 Ebrill.

Mae mesurau lliniaru ychwanegol ar waith i wneud amgylchedd yr ysgol yn ddiogel ar gyfer dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ac rydym wedi diweddaru ein canllawiau ar ôl ystyried pryderon dysgwyr, staff ysgolion ac eraill a allai ddod i gysylltiad â'r feirws yn yr ystafell ddosbarth neu yn y gweithle, ac mae gan ysgolion rywfaint o hyblygrwydd o ran sut y maent yn dewis gweithredu'r rhain. Gyda'r mesurau ychwanegol hyn ar waith, ni ddylai fod yn ofynnol mwyach i garfannau o ddysgwyr ddysgu o'u cartrefi.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ysgolion, gan gynnwys y mesurau a roddir ar waith pan fydd ysgolion ar gau, megis darparu gwersi byw. Felly rwy'n parhau i annog rhieni neu ddysgwyr sydd ag unrhyw broblemau gyda'r ddarpariaeth i gysylltu â'u hawdurdod lleol yn uniongyrchol i drafod y materion hyn; nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r rhesymeg ar gyfer y penderfyniadau a wneir yn lleol.

Yn gywir

Kirsty Williams

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**P-05-1147 Require all schools to provide daily live / recorded teaching to all pupils not returning to school, Correspondence – Petitioner to Committee, 24.06.21**

Many thanks for pursuing this petition on my behalf.

Kirsty Williams will be aware from my direct correspondence with her that I have contacted my children's school, its governing body and Powys County Council. This did not result in the school providing any live or recorded lessons. The petition was a last resort as I feel I have no voice.

It is not satisfactory to leave this decision to schools if headteachers refuse to find solutions - in our case a local cluster of heads had decided in September 2020 that they would not be making live online provision in the event of the winter lockdown. They could have used all the extra planning time to work collegiately to deliver live or recorded lessons.

I am keen to know the current minister's views on the inequality experienced by some pupils (14% of Powys learners, based on PCC research). Should schools have to close in the autumn, will there be an entitlement to daily live or recorded teaching? Or will children attending schools that decline to teach be disadvantaged further?

# Eitem 4.5

**P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Peter Phillips, ar ôl casglu cyfanswm o 189 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi pryd y bydd perfformiadau cerddoriaeth fyw yn gallu ailddechrau ar ôl i'r cyfnod cloi ddod i ben. O ganlyniad, ni all unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru ennill bywoliaeth. Mae'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth yn dod i ben ar 17 Awst. Ar ôl y dyddiad hwnnw, os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd perfformiadau cerddoriaeth fyw, dylai fod yn orfodol i'r Llywodraeth ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i unigolion hunangyflogedig yng Nghymru sy'n ennill bywoliaeth yn y diwydiant hwn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cronfa Adferiad Diwylliannol 2021-22** |
| **DYDDIAD** | **22 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth** |

Heddiw, mae Llywodraeth Cymru yn lansio cam pellach o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, gyda hyd at £30m ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22 i helpu i gefnogi sector diwylliant amrywiol Cymru drwy'r pandemig parhaus. Bydd hefyd yn helpu'r rhannau hynny o'r sector wrth i ni ddechrau llacio'r cyfyngiadau dros y misoedd nesaf wrth i ni barhau i weithio gyda'r sector i wella.

Rydym wedi gwrando a gweithio gyda'r sectorau i roi'r pecyn cymorth ychwanegol hwn ar waith. Rydym yn cydnabod yr heriau digynsail y mae'r pandemig yn eu cael ar wead diwylliannol bywyd Cymru ac rydym yn cymeradwyo'r gwydnwch a'r creadigrwydd a ddangosir.

Caiff y gronfa ei darparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol.

Darparodd y Gronfa Adfer Diwylliannol, a gyhoeddwyd yr haf diwethaf, £63.3m yn 2020-21 i gefnogi theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, sinemâu annibynnol a gweithwyr llawrydd.

Roedd yn cynnwys tair prif elfen – gweinyddodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyllid o £18m i gefnogi 170 o sefydliadau, gan gefnogi theatrau ac orielau celf cenedlaethol a lleol. Mae dros 1,000 o swyddi wedi'u cefnogi.

Darparodd yr elfen o'r gronfa a weinyddir gan Lywodraeth Cymru £27m i gefnogi'r sectorau diwylliant, creadigol, digwyddiadau a threftadaeth. Derbyniodd dros 500 o sefydliadau gyllid.

Y Gronfa Gweithwyr Llawrydd oedd y cyntaf o'i bath yn y DU ac mae wedi darparu cyfanswm o £18m o gymorth grant i 3,500 o weithwyr llawrydd nad ydynt wedi gallu gweithio yn ystod y pandemig ac a fydd yn hanfodol i adferiad diwylliannol Cymru.

Bydd gwiriwr cymhwysedd yn fyw o ganol dydd Mercher 24 Mawrth 2021.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1013
Ein cyf/Our ref DET/00847/21

Clerc y Pwyllgor Deisebiadau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Petitions@Senedd.Wales

19 Ebrill 2021

Annwyl Glerc y Pwyllgor Deisebau,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn llythyr gan Janet Finch-Saunders AS ar 30 Mawrth ynghylch deiseb yn ymwneud â chymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru (P-05-1013), a rannodd ohebiaeth gan y deisebydd Peter Phillips, dyddiedig 5 Mawrth.

Nodaf bryderon parhaus y deisebydd sy'n teimlo nad yw'r materion y mae wedi'u codi o'r blaen wedi cael sylw digonol eto, yn benodol pryderon bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru hyd yma wedi methu â chefnogi rhai Cerddorion llawrydd y mae angen cymorth arnynt o hyd, a materion yn ymwneud â'r meini prawf cymhwysedd, y broses ymgeisio a'r cyfathrebu ar gyfer y Gronfa Llawrydd.

Fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth flaenorol, wrth gynllunio'r Gronfa Llawrydd gwnaed penderfyniadau anodd yng ngoleuni'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Gwnaed y penderfyniadau hyn mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, yr undebau creadigol a diwylliannol, a chyda'r gymuned lawrydd drwy Dasglu Llawrydd Cymru. Cytunwyd y dylai'r Gronfa ganolbwyntio ar nifer fach o sectorau â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd ag amcanion y Gronfa Adferiad Diwylliannol i gefnogi cynaliadwyedd sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru y mae pandemig COVID-19 yn effeithio'n sylweddol arnynt.

Cyflwynwyd y Gronfa ar sail y cyntaf i'r felin yn hytrach na fel Cronfa gystadleuol yn seiliedig ar lefel yr angen, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan randdeiliaid sy'n gysylltiedig ag anawsterau gweithwyr llawrydd wrth ddarparu tystiolaeth o golli enillion. Cyflwynwyd y gronfa fesul cam ar gais rhanddeiliaid, er mwyn helpu i liniaru unrhyw faterion hygyrchedd sy'n gysylltiedig â'r dull y cyntaf i'r felin ac i roi mwy o amser i ymgeiswyr baratoi. Yn dilyn adborth o gam un, bu inni gryfhau ein cyfathrebu ar gyfer y camau dilynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn ymwybodol bod llawer mwy o weithwyr llawrydd a sectorau sydd angen cymorth arnynt o hyd ar yr adeg anodd hwn. Gan gydnabod mai dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer cyllidol i sicrhau diogelwch sy'n cefnogi pob unigolyn rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ymateb a bod yn gyfrifol o ran cefnogi'r rhai sy'n dal i syrthio drwy'r rhwyd.

Mae'r Gronfa Llawrydd, fel y cyntaf o'i fath yn y DU wedi bod o fudd i nifer sylweddol o weithwyr llawrydd creadigol a diwylliannol yng Nghymru, ac mae wedi cefnogi 3,584 o unigolion gyda £18m o gyllid hyd yma. Ar 22 Mawrth, cyhoeddais fod Llywodraeth Cymru yn lansio cam pellach o'r Gronfa Adfer Diwylliannol, gyda hyd at £30m ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22 i helpu i gefnogi sector diwylliant amrywiol Cymru drwy'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys dyraniad pellach i'r Gronfa Llawrydd a fydd yn agor ar gyfer ceisiadau ddechrau mis Mai. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn casglu adborth gan ein rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithwyr llawrydd a'r undebau creadigol, i nodi'r gwersi a ddysgwyd i lunio'r pedwerydd cylch hwn o gymorth ariannol i weithwyr llawrydd fel ei fod yn diwallu anghenion y sector. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r meini prawf cymhwysedd ac archwilio cynllun nad yw'n dilyn dull gweithredu cyntaf i'r felin. Hefyd, rydym yn cynnal dadansoddiad o'r gweithwyr llawrydd a gefnogwyd hyd yma a bydd y canfyddiadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio cymorth yn y dyfodol. Rwy'n ymwybodol bod y deisebydd wedi holi'r Pwyllgor Deisebau o'r blaen ynghylch cymhwysedd artistiaid teyrnged, cantorion priodasau a chantorion tafarn i'r Gronfa Llawrydd. Bydd gwiriwr cymhwysedd ar gael ar wefan Busnes Cymru ddechrau mis Mai, a byddwn yn cynghori bod unigolion sy'n dymuno derbyn cyllid yn cwblhau'r gwiriwr cymhwysedd cyn gynted ag y bydd ar gael, gan y bydd nifer o ystyriaethau sy'n pennu cymhwysedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu rhannau o'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol nad ydynt yn gallu gweithio o hyd oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith i gyfyngu ar ledaeniad y feirws a diogelu iechyd y cyhoedd. Nodwn yr effaith benodol y mae hyn yn ei gael ar weithwyr llawrydd sy'n gweithredu mewn sectorau fel y sector cerddoriaeth fyw nad ydynt yn gallu gweithio a chreu incwm. Mae cynllun busnes Cymru Greadigol ar gyfer 2021/22 yn cynnwys camau i ddarparu cymorth parhaus i'r sector cerddoriaeth fel sector â blaenoriaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu o dan arweiniad y diwydiant ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru a fydd yn adlewyrchu'r angen am gamau gweithredu tymor byr i gynorthwyo'r sector i wella o bandemig COVID-19, a chynlluniau tymor hwy ar gyfer datblygu'r sector er mwyn creu dyfodol cynaliadwy mewn marchnad fyd-eang. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau clir a diweddar sy'n cefnogi dychwelyd i weithgarwch yn ddiogel. Bydd hyn yn defnyddio dull graddol, gan weithio gyda'n rhanddeiliaid wrth i gyflyrau iechyd y cyhoedd ganiatáu symud drwy lefelau'r Cynllun Rheoli. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i ymateb i unrhyw gynnydd yn nhrosglwyddiad y feirws a gweithredu pan fo sicrwydd bod cyflyrau iechyd y cyhoedd yn caniatáu i leoliadau, digwyddiadau a pherfformiadau byw ailddechrau. Mae'r Rhaglen Digwyddiadau Prawf yn elfen hanfodol o hyn, a bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut mae'r rhain yn cael eu cynnal ledled y DU, ac yn dysgu lle y bo'n briodol.

Deallaf y bydd y ddeiseb yn cael ei hystyried ymhellach gan y pwyllgor dilynol, unwaith y bydd wedi'i sefydlu yn dilyn Etholiad y Senedd.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**P-05-1013 Provide financial support for self-employed individuals within the Welsh live music industry, Correspondence – Petitioner to Committee, 01.07.21**

Dear Committee

As the former Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism acknowledges in his letter of 19 April, the purpose of my Petition was to raise a concern for a particular sector of the live music industry, namely tribute artists, wedding and pub singers.

Since the onset of the pandemic these performers have been deprived of the ability to earn a living due to the restrictions on live music. The Freelancer Fund has not provided adequate support for these people. It has simply not been fit for purpose, both on a macro level by being constantly inadequate to support the total amount of applications and specifically for the sector this Petition applies to by virtue of the underwriting criteria that requires applicants to demonstrate they provide cultural benefit.

In addition, the Welsh Government's Covid health policy, when compared to England, has discriminated against the pub music sector and continues to do so. Yet, as the former Deputy Minister concedes, the Welsh Government does not have the fiscal power to provide the necessary support to this sector of the music industry. This continues to be the case.

There is probably nothing that can be done at this stage to compensate these individuals for failing them financially but I would urge the new administration to consider separate 'bounceback' support for this sector as a matter of urgency.

Yours Faithfully

# Eitem 4.6

**P-05-1092 Peidiwch â gohirio etholiadau mis Mai 2021**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan David Hopkins, ar ôl casglu cyfanswm o 470 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ni ddylai ac ni all y rhai sydd mewn grym gael gwared ar yr hawl i bleidleisio dros ddemocratiaeth gan ei fod yn tanseilio democratiaeth. Rhaid peidio â chaniatáu i'r llywodraeth bresennol estyn ei chyfnod mewn grym o ganlyniad i COVID-19. Mae pob gwlad arall wedi llwyddo i gynnal etholiadau.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Islwyn
- Dwyrain De Cymru

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

Deisebau@senedd.wales

11 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 16 Chwefror am yr amgylchiadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol inni ohirio etholiad y Senedd.

Cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig ar 5 Mawrth yn amlinellu'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer penderfynu a yw'n angenrheidiol i ohirio etholiad. Mae'r meini prawf yn amlinellu'r egwyddorion bras i'w defnyddio i hysbysu barn gytbwys ac maent wedi'u cynllunio i ganiatáu hyblygrwydd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig ar gael yma: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-prawf-iw-defnyddio-gan-y-prif-weinidog-i-benderfynu-ywn-angenrheidiol-neun

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal yr etholiad ar 6 Mai ac rydym yn cefnogi Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadau i weithredu i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal etholiad yn ystod y pandemig.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 4.7

**P-05-1150 Rhowch wyliau ardrethi busnes i safleoedd cartrefi gwyliau yng Nghymru, fel yn Lloegr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Denise Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 640 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n rhoi gwyliau ardrethi i'r diwydiant lletygarwch a hamdden. Yn yr un modd â'r Alban, rhoddodd Llywodraeth Cymru ryddhad ardrethi i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £500,000. Cafodd llawer o fusnesau eu heithrio o'r gwyliau ardrethi oherwydd bod eu gwerth ardrethol dros £500,000. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn rhannu bil yr ardrethi rhwng perchnogion y carafanau, felly nid ydym yn cael budd o'r gwyliau ardrethi ar yr adeg anodd hon, pan fyddai'r arian ychwanegol yn gymorth mawr. Mae pob un ohonom yn parchu dewis Llywodraeth Cymru i gau'r ffiniau er mwyn atal y feirws rhag lledaenu. Fodd bynnag, yn gyfnewid am hynny, hoffem ofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru drwy beidio â rhoi terfyn uchaf ar gyfer ryddhad ardrethi. Byddai hyn o gymorth mawr i berchnogion cartrefi gwyliau sydd ddim wedi gallu manteisio ar y rhyddhad ardrethi hyd yn hyn. Rydym am gael yr un rheolau ag sydd yn eu lle yn Lloegr.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-1150
Ein cyf/Our ref: RE/00222/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Ebrill 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Deiseb P-05-1150, sy'n cynnig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwyliau ardrethi busnes i safleoedd cartrefi gwyliau yng Nghymru, sydd â gwerth ardrethol dros £500,000.

Ar 3 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad i ymestyn y cynllun ar gyfer darparu rhyddhad ardrethi annomestig 100% yn benodol ar gyfer trethdalwyr yn y sectorau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, sydd â gwerth ardrethol dros £500,000 yn 2021-22.

Mae'r canllawiau llawn ar gyfer y cynllun ar gael yn:
https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-cynllun-ychwanegol-rhyddhad-ardrethi-lletygarwch-hamdden-2021-22

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effeithiau hirdymor y gallai cyfyngiadau eu cael ar fusnesau, ac felly mae wedi ymrwymo i gefnogi busnesau drwy eu hadferiad.

Mae ein pecyn £380m yn darparu gwyliau ardrethi busnes am flwyddyn gyfan i fusnesau ac elusennau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru. Drwy'r pecyn hwnnw, a thrwy ein cynlluniau rhyddhad parhaol, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu dros £610m mewn rhyddhad ardrethi annomestig yn 2021-22, sy'n golygu y bydd 70,000 o fusnesau'n parhau i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

dalu dim ardrethi o gwbl. Amcangyfrifir mai £380m fydd y gost, sy’n mynd y tu hwnt i’r cyllid canlyniadol o £358.9m a gafwyd oddi wrth Lywodraeth y DU.

Nod penodol y cynllun yw cefnogi busnesau yn y sectorau hyn yn ystod y cyfnod heriol hwn. Awdurdodau lleol fydd yn ei weinyddu, a bydd yn gweithredu ar sail ceisiadau. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd ddangos ei fod wedi dioddef effeithiau negyddol materol o ganlyniad i’r cyfyngiadau COVID-19.

Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau parhaus â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â sut i weithredu’r cymorth hwn. Bydd yr awdurdodau lleol yn cyfathrebu â’r busnesau perthnasol i drafod eu ceisiadau.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# Eitem 4.8

**P-05-1151 Dylid pennu dyddiad ar gyfer ailddechrau gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer babanod a phlant bach**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kate Worgan, Tots Play Cardiff North, ar ôl casglu cyfanswm o 1,756 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020, roeddem wedi gallu cynnal dosbarthiadau wyneb yn wyneb y tu mewn, gan ddilyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i'r llythyren.

Ni chawsom unrhyw achosion o'r feirws yn y dosbarthiadau ac roeddem yn hynod ddiwyd a rhagweithiol o ran creu amgylchedd diogel i ddosbarthiadau, tra hefyd yn darparu'r holl fuddiannau y gall dosbarthiadau eu cynnig i rieni a gofalwyr, a'u plant ifanc.

Rydym yn dal i gynnal dosbarthiadau ar-lein ond mae angen dyddiad arnom i allu dod â dosbarthiadau wyneb yn wyneb yn ôl.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Yn aml, mae plant ifanc wedi cael eu hanwybyddu yn y pandemig hwn, yn yr un modd â'u rhieni.

Mae wedi bod yn gryn bryder i ni bod rhieni wedi'u hynysu, ac effaith hynny ar eu hiechyd meddwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gyda theuluoedd yn byw ymhellach oddi wrth ei gilydd, agwedd hanfodol ar feithrin rhwydwaith cymorth yw gallu cwrdd â rhieni eraill â phlant ifanc, mewn amgylchedd diogel a chroesawgar.

Bu cyfle i wneud hynny mewn dosbarthiadau babanod ar-lein, ond gall ceisio ymgysylltu â phobl nad ydych wedi cwrdd â nhw eto fod yn anodd.

Mae plant ifanc nad ydyn nhw'n mynd i feithrinfa breifat wedi colli’r cyfle, a'r holl fuddiannau a ddaw o gymdeithasu â babanod a phlant, sy'n rhan enfawr o'u datblygiad.

Maen nhw hefyd wedi colli'r cyfle i archwilio gweithgareddau datblygu a bod ar eu hennill yn sgil hynny, ynghyd â gweithgareddau sy'n hybu’r broses o fondio rhwng rhiant a phlentyn.

Mae gwir angen i rieni allu ailddechrau ein dosbarthiadau’n ddiogel.

At hynny, mae angen hyn arnom ni fel sector, er mwyn i'n busnesau barhau i fod yn hyfyw.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

**Julie Morgan**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05- 1151
Ein cyf/Our ref JM/00454/21

Clerc,
Y Pwyllgor Deisebau

6 Mai 2021

Annwyl Clerc,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 29 Mawrth, ynghylch y ddeiseb ar ddarparu dyddiad ar gyfer ailddechrau gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer babanod a phlant bach.

Mae'r ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu dyddiad ar gyfer ailddechrau dosbarthiadau wyneb yn wyneb i rieni a gofalwyr a'u plant bach.

Caniatawyd gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i blant ers 27 Mawrth, gan gynnwys grwpiau babanod a phlant bach. Ar 23 Ebrill, cyhoeddwyd y cânt ddigwydd dan do o ddydd Llun 3 Mai 2021. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Julie Morgan**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-1151 Provide a date for the return of Organised Children's Activities for Babies & Toddlers, Correspondence – Petitioner to Committee, 01.07.21**

Thank you very much for that! Is it possible to close the petition please? We were able to reopen indoor Baby & Toddler Classes a little while ago!

Thank you very much for all your help
Kind regards

# Eitem 4.9

**P-05-1154 Dylid ailagor y sector lletygarwch yng Nghymru erbyn 12 Ebrill 2021**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lyndsey Groundwell, ar ôl casglu cyfanswm o 157 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Gyda'r llacio arfaethedig o ran cyfyngiadau ar wyliau yng Nghymru a nodi strategaeth godi cyfyngiadau gan Lywodraeth y DU, rydym ni'n credu ei bod bellach yn bryd ailagor yn barhaol y sector hwn sy'n amhrisiadwy yn economaidd ac yn gymdeithasol. Wedi'r cyfan:
- Mae lefel rhybudd y Gwasanaeth Iechyd wedi'i ostwng oherwydd bod llai o fygythiad yn sgîl y feirws;
- Cymru sydd wedi rhoi'r ganran uchaf o ddosau cyntaf o'r brechlyn COVID-19
- Ni sydd â'r nifer isaf o achosion fesul 100,000 ymhlith cenhedloedd y DU, sef 75.4 - sy'n debyg i'r gyfradd a welwyd ym mis Medi – ac mae meini prawf eraill a fodlonwyd yn golygu bod Cymru bellach wedi syrthio i lefel rhybudd 2 ar hyn o bryd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae llawer o dafarndai Cymru yn ganolbwynt cymunedau, yn darparu man lle gall pobl alw heibio a siarad â phobl eraill o'u cymuned leol, ac mae hynny'n helpu pobl i deimlo'n llai ynysig. Mae'r budd hwn i bobl i'w gael yn "lleol" yn benodol, ac yn aml caiff hyn ei anwybyddu.

Mae lletygarwch yn cynnwys tafarndai, bwytai a chaffis, sy'n denu pobl o bob rhan o'r gymdeithas ac sy'n darparu ffynhonnell incwm amhrisiadwy i'r gadwyn gyflenwi ehangach. Byddai pennu dyddiad, fel 12 Ebrill, yn caniatáu amser i'r cwmnïau hanfodol hyn gaffael a gweithgynhyrchu'r cyflenwadau y bydd eu hangen arnynt ar gyfer ailagor lleoliadau.

Y llynedd, ailagorodd y sector yng Nghymru ar ôl y sector yn Lloegr, ac o ganlyniad gwelwyd refeniw Cymru yn mynd dros y ffin. Hyd yma, bydd lletygarwch wedi bod ar gau am ddau Basg, dau Ŵyl y Banc, Calan Gaeaf, Noson Tân Gwyllt, y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, diwrnod Santes Dwynwen, diwrnod Sant Ffolant, cystadleuaeth Rygbi'r 6 Gwlad a hefyd Dydd Gŵyl Sant Padrig a Dydd Gŵyl Dewi.

Ni fydd llawer o fusnesau yn goroesi oni chyflymir y cam i ailagor y sector lletygarwch yma.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1154
Ein cyf/Our ref KS/01959/21

Clerc
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

Petitions@Senedd.Cymru

13 Ebrill 2021

Annwyl Glerc

Cyfeiriaf at y llythyr dyddiedig 29 Mawrth gan Gadeirydd y Pwyllgor sydd bellach wedi'i oedi ynghylch deiseb gan Lyndsey Groundwell Deiseb P-05-1154 Ailagor sector lletygarwch Cymru erbyn 12 Ebrill.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr amgylchiadau eithriadol o anodd ac ansicr sy'n cael eu gweld ar hyn o bryd gan fusnesau ac unigolion. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r gefnogaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen ar y gymuned fusnes.

Fel y gwyddoch, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Rheoli Coronafeirws ar 19 Mawrth, gan nodi sut a phryd y bydd mwy o bobl a busnesau yn gallu ailddechrau eu gweithgareddau yn y ffordd fwyaf diogel posibl.

https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-diwygiedig-yng-nghymru-mawrth-2021

Mae'r cynllun yn cefnogi Llywodraeth Cymru i barhau i lacio'r cyfyngiadau tra bod sefyllfa iechyd y cyhoedd yn parhau i fod yn gadarnhaol – mae cyfraddau wedi gostwng yn sylweddol ledled Cymru diolch i'r holl waith caled ac aberth a wnaed gan bobl yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'n nodi amrywiol ddangosyddion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dadansoddi a'u hasesu, ochr yn ochr â chyngor a gwybodaeth arbenigol proffesiynol gan bartneriaid lleol, i benderfynu sut y caiff cyfyngiadau eu llacio.

Byddwn yn adolygu'r rheoliadau'n ofalus a byddwn yn parhau â'n dull gofalus, cam wrth gam, gan godi cyfyngiadau o wythnos i wythnos, os bydd sefyllfa iechyd y cyhoedd yn parhau i fod yn ffafriol.

Rydym wedi dod â grŵp Rhanddeiliaid Twristiaeth a Lletygarwch at ei gilydd sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sy'n cael ei gyd-gadeirio gan y Gweinidog dros Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg a hefyd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, UK Hospitality Cymru a Chonsortiwm Bwytai Annibynnol Cymru felly rydym yn clywed yn uniongyrchol o'r sector ledled Cymru.

Gellir dod o hyd i fanylion y llacio diweddaraf i'r rheoliadau (gan gynnwys ar gyfer y sector twristiaeth, lletygarwch a hamdden), yn amodol ar y sefyllfa iechyd cyhoeddus sy'n parhau'n ffafriol, yma:

https://llyw.cymru/llacio-cyfyngiadau-covid-19-yng-nghymru-yn-gynt

Yn y cyfamser, bydd ein pecyn hael o gymorth ariannol i fusnesau Cymru yn parhau drwy gydol mis Ebrill a mis Mai. Bydd llawer o fusnesau eisoes wedi derbyn eu cyfran lawn o'r £180m o gyllid a gyhoeddwyd ganol mis Mawrth ymlaen llaw i'w cynnal tan fis Mai, i eraill, gan gynnwys yn y sector lletygarwch a thwristiaeth, bydd grantiau arian parod yn parhau i gael eu talu yn ystod mis Ebrill wrth i geisiadau gael eu cadarnhau.

Byddai tafarn, gwesty neu fwyty yng Nghymru gyda deg aelod o staff wedi bod â hawl i £45,000 o gymorth Llywodraeth Cymru i'w cynnal o fis Rhagfyr ymlaen. Mae hyn yn ychwanegol at ein cynllun rhyddhad ardrethi busnes a chymorth Llywodraeth y DU i dalu costau staff.

Byddai tafarn, gwesty neu fwyty gyda phedwar aelod o staff wedi bod â hawl i £27,000 o gymorth Llywodraeth Cymru i'w cynnal o fis Rhagfyr ymlaen. Mae hyn yn ychwanegol at ein cynllun rhyddhad ardrethi busnes a chymorth Llywodraeth y DU i dalu costau staff.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu dros £610m mewn rhyddhad ardrethi annomestig yn 2021-22. Bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu is yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 100% yn 2021-22. Mae hyn yn golygu, mewn cyfanswm, na fydd dros 70,000 o fusnesau yng Nghymru yn talu unrhyw ardrethi o gwbl am y flwyddyn. Mae canllawiau ar y cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i'w gweld yn:
https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-lletygarwch-yng-nghymru-2021-22

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi busnesau Cymru drwy'r cyfnod hynod anodd hwn ac ystyried opsiynau y tu hwnt i'r pecyn cymorth presennol.

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

# Eitem 4.10

**P-05-1156 Dylid cyfateb y cyllid ar gyfer busnesau bach yn ystod y cyfyngiadau symud gyda Lloegr – gan gynnwys y grant ailgychwyn**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sally Gillard, ar ôl casglu cyfanswm o 2,458 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Yng Nghymru, busnesau bach sydd wedi cael y lefel isaf o gyllid allan o holl wledydd y DU yn ystod y trydydd cyfnod clo cenedlaethol – er iddynt fod o dan gyfyngiadau symud am gyfnod hirach.

O heddiw ymlaen, cyhoeddodd Rishi Sunak grant ailgychwyn ar gyfer busnesau bach i helpu gydag ailagor busnesau.

Rwy'n annog Lywodraeth Cymru i gefnogi ein busnesau lleiaf yn iawn, a darparu grantiau sy'n cyfateb i'r hyn a roddir i berchnogion busnesau bach yng ngwledydd eraill y DU.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Rishi Sunak – cyllideb mis Mawrth 2021
Gallwch weld cymhariaeth o gyllid holl wledydd y DU ar gyfer cyfnod clo 3 drwy wirio cyllid pob gwlad ar wefannau llywodraethau.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1156
Ein cyf/Our ref KS/01960/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

8 Ebrill 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ar 29 Mawrth ynghylch Deiseb P-05-1156 - Cyfateb y cyllid ar gyfer busnesau bach yn ystod y cyfyngiadau symud â Lloegr - gan gynnwys y grant ailgychwyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr amgylchiadau eithriadol o anodd ac ansicr sy'n cael eu profi ar hyn o bryd gan fusnesau ac unigolion. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r gefnogaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen ar y gymuned fusnes.

Bydd ein pecyn hael o gymorth ariannol i fusnesau Cymru yn parhau drwy gydol mis Ebrill a mis Mai. Bydd llawer o fusnesau eisoes wedi derbyn eu cyfran lawn o'r £180m o gyllid a gyhoeddwyd ganol mis Mawrth ymlaen llaw i bara tan fis Mai, i eraill, gan gynnwys y sector lletygarwch a thwristiaeth, bydd grantiau arian parod yn parhau i gael eu talu yn ystod mis Ebrill wrth i geisiadau gael eu cadarnhau. Felly, ni fydd busnesau'n gweld unrhyw ymyrraeth yn y llif o gymorth ariannol, wrth inni symud yn ofalus i lacio cyfyngiadau iechyd y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod lefelau digynsail o gyllid ar gael i gefnogi busnesau Cymru yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn, gyda phecyn gwyliau cyfraddau 12 mis llawn i'r rhai yn y sectorau sydd wedi dioddef waethaf sy'n mynd gryn dipyn y tu hwnt i'r rhyddhad sydd ar gael i fusnesau yn Lloegr. Hyd yma rydym wedi darparu mwy na dwy biliwn o bunnoedd mewn cymorth busnes yn ystod y pandemig, gan ddiogelu 165,000 o swyddi yng Nghymru.

Mae £200m arall o gymorth ychwanegol i fusnesau eisoes wedi'i glustnodi yng Nghyllideb Derfynol 2021-22 – bydd y penderfyniadau terfynol ar hyn ar gyfer y weinyddiaeth nesaf yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai tafarn, gwesty neu fwyty yng Nghymru gyda deg aelod staff wedi bod â hawl i £45,000 yng nghymorth Llywodraeth Cymru i ofalu amdanynt o fis Rhagfyr ymlaen. Mae hyn yn ychwanegol i'n cynllun rhyddhad ardrethi busnes a chymorth Llywodraeth y DU i dalu am gostau staff. Byddai tafarn, gwesty neu fwyty gyda phedwar aelod staff wedi bod â hawl i £27,000 yng nghymorth Llywodraeth Cymru – ochr yn ochr â'r cymorth arall sydd ar gael.

Efallai yr hoffech nodi ein bod hefyd wedi cyhoeddi £270m yn ychwanegol ar gyfer Cronfa Buddsoddi Hyblyg Banc Datblygu Cymru ar 23 Chwefror. Mae hyn yn golygu y bydd mwy na £500m ar gael drwy'r gronfa hyd at 2030 i gefnogi llwyddiant a thwf hirdymor ein cwmnïau, gan greu a diogelu miloedd o swyddi yng Nghymru yn eu tro.
https://developmentbank.wales/cy

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**P-05-1157 Caniatáu i ysgolion asesu myfyrwyr fel y maent yn gweld yn addas, gan gynnwys defnyddio asesiadau llyfr agored**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ibrahim Sheikh, ar ôl casglu cyfanswm o 2,312 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Yn ddiweddar, cyhoeddodd CBAC y bydd yn rhaid i fy ngholeg ein hasesu drwy gyfrwng asesiadau yn y dosbarth o dan amodau arholiad. Gwnaed y cyhoeddiad hwn 6 wythnos ysgol cyn bod ein hathrawon i fod i gyflwyno ein graddau, sy'n golygu mai cyfnod byr iawn fydd gennym i baratoi ar gyfer arholiadau. Nid yw hyn yn deg i fyfyrwyr sydd wedi cael gwybodaeth anghyson ynghylch sut y byddwn yn cael ein graddio gydol y flwyddyn. Ysgolion ddylai gael penderfynu sut i asesu myfyrwyr, gan fod y pandemig wedi effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

By email

Janet Finch-Saunders MS
Chair, Welsh Parliament Petitions Committee

26 March 2021

Dear Janet,

Thank you for providing us with the opportunity to offer our views on the issues raised in the petition.

We have worked with the Design and Delivery Advisory Group (DDAG) set up by the Minister of Education to put in place the arrangements for the award of GCSE, AS and A level qualifications in summer 2021 and to deliver the policy position set out in the Minister's Direction to Qualifications Wales. We have provided guidance for centres on the different aspects of the alternative approach. The latest version of the guidance is available on our website. The guidance also includes a timeline of key dates in the process, with provisional centre determined grades to be submitted to WJEC by 2 July 2021.

We have been aware of queries raised about the assessment evidence that can be used to inform grade judgements and have written to centres on 23 March 2021 to provide further clarity on the requirements. Our letter included the following clarification in support of our published guidance:

- Contributing assessment evidence could come from a range of activities that include mock exams, past papers provided by WJEC, NEA and other assessed work.
- Historic evidence of attainment can be used as part of the evidence considered when determining a grade, but with caution, as it may not be representative of the learner's current level of attainment.
- Centres can develop their own assessments ensuring that they are valid and fair.
- WJEC past papers should only be used where you are confident that they will provide an authentic assessment that demonstrates the learner's true level of attainment.  WJEC past papers can be adjusted to provide a more authentic assessment.

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

- Assessed work may need to be completed in the school environment or at home, but centres need to be assured that it is the learner's own work.

A key part of the approach to this summer is that learners should only be assessed on what schools and colleges have taught them. There is flexibility for schools to decide on the assessment approach that works best for their learners and a focus on the quality rather than quantity of evidence generated. If a centre chooses to use a WJEC past paper, they do not have to be completed in one session under examination conditions but can be divided into sections and schools and colleges can decide how and when to use them so that they integrate with their teaching plans. Centres may also provide learners with the topics on which they will be assessed in advance, however they should not provide them with the actual assessment in advance.

These clarifications are intended to reinforce the flexibility available to schools and colleges in the approach for this summer and particularly that a range of evidence can be used; we recognise that the approach has to be flexible for centres to accommodate their local context. These key messages have been reinforced through the recent publication of 8 key facts for schools and colleges.

However, there must be a balance between flexibility and the integrity of results for learners this summer. An approach that does not rely on credible assessment evidence is likely to lead to inconsistency and unfairness for learners and could also put centres at risk of challenge from learners through the appeals process. The approach seeks to balance flexibility for schools and colleges with requirements to provide consistency across Wales. Ultimately, the exceptional arrangements put in place for this summer need a system-wide commitment to valid and credible outcomes that allow learners to have confidence in their results and progress onto their next stages.

We continue to work closely with WJEC and the Design and Delivery Advisory Group to finalise the arrangements for summer 2021 and to respond to concerns raised by learners, schools and colleges.

Please let me know if you would like any further information.

Yours sincerely



Philip Blaker
Chief Executive

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-1157
Ein cyf/Our ref KW/02139/21
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Janet,

13 Ebrill 2021

Diolch am eich e-bost ar 25 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-05-1157 gan Ibrahim Sheikh, sef "Caniatáu i ysgolion asesu myfyrwyr fel y maent yn gweld yn addas, gan gynnwys defnyddio asesiadau llyfr agored". Rwy'n sylwi eich bod hefyd wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru a CBAC.

Rwy'n cydnabod bod y cyfnod hwn yn un llawn straen i ddysgwyr, athrawon a rhieni fel ei gilydd. Rwy'n gwybod bod y sefyllfa bresennol yn anodd ac yn heriol i bobl ifanc, yn enwedig i'r rheini sy'n sefyll arholiadau. Hoffwn eich sicrhau chi, a'r deisebwr, bod llesiant a dilyniant dysgwyr wedi bod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau wrth ddatblygu trefniadau asesu amgen ar gyfer cymwysterau.

Mae'r model Pennu Graddau gan Ganolfannau wedi'i ddatblygu trwy gydweithio'n agos gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni o benaethiaid ac arweinwyr colegau, gyda chefnogaeth gan Gymwysterau Cymru a CBAC. Mae'r broses wedi bod yn ailadroddus, sydd wedi adlewyrchu natur y pandemig a pholisi sy'n newid o hyd, ond rhoddwyd pwyslais mawr ar sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ddysgwyr, ysgolion a cholegau mor fuan â phosibl er mwyn rhoi cymorth iddynt gyda'u paratoadau.

Yn y cyd-destun hwnnw, ar 23 Mawrth, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y fersiwn ddiweddaraf, derfynol o'u canllawiau i ganolfannau, sy'n rhoi manylion pellach ar y mathau o dystiolaeth y gallant eu defnyddio wrth bennu graddau yn defnyddio'r model Pennu Graddau gan Ganolfannau i ddyfarnu TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn 2021. Mae'r canllawiau yn rhoi fframwaith y gall ysgolion a cholegau weithredu o'i fewn, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd gyson a thryloyw. Ategir y dull gweithredu hwn ymhellach gan Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC, sy'n cefnogi pob cymhwyster.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Cyhoeddwyd 14 adroddiad ar ddeisebau yn ystod y Senedd hon. Mae rhai o'r rhain wedi bod yn grynodebau o'r dystiolaeth a ddaeth i law, tra bod eraill wedi cynnwys casgliadau neu argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Lle gwnaethom argymhellion rydym wedi gofyn am ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ac wedi ystyried yr ymateb hwnnw.

Cyhoeddwyd yr adroddiadau canlynol yn ystod y Bumed Senedd:

| Deiseb(au) | Dyddiad | |
|---|---|---|
| P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari | Chwefror 2017 | Gwnaeth yr adroddiad dri argymhelliad. Cafodd dau ohonynt eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. |
| P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt | Hydref 2017 | Gwnaeth yr adroddiad 12 argymhelliad. Cafodd pob un eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. |
| P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog | Ionawr 2018 | Ystyriodd y Pwyllgor grynodeb o'r dystiolaeth. |
| P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf a P04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig | Ebrill 2018 | Ystyriodd y Pwyllgor grynodeb o'r dystiolaeth. |
| P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd | Mai 2018 | Ystyriodd y Pwyllgor grynodeb o'r dystiolaeth. |
| P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc | Gorffennaf 2018 | Gwnaeth yr adroddiad 10 argymhelliad. Cafodd saith eu derbyn, a thri eu derbyn mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cymru. |
| P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb | Hydref 2018 | Gwnaeth yr adroddiad bedwar argymhelliad. Cafodd tri eu derbyn, ac un ei dderbyn mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cymru. |
| P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan–Y Fenni | Hydref 2018 | Gwnaed un argymhelliad yn yr adroddiad. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor mewn ymateb. |
| P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol | Chwefror 2019 | Cafwyd adroddiad interim yn crynhoi'r dystiolaeth a ddaeth i law cyn sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu - adnabyddiaeth a chefnogaeth | Mawrth 2019 | Gwnaeth yr adroddiad 10 argymhelliad. Cafodd wyth eu derbyn, ac un ei dderbyn mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cymru. |

| Deiseb(au) | Dyddiad | |
|---|---|---|
| P-05-736 Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch | Medi 2019 | Gwnaeth yr adroddiad saith argymhelliad. Cafodd pump eu derbyn, a dau eu derbyn mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cymru. |
| P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai | Ionawr 2020 | Gwnaeth yr adroddiad dri argymhelliad. Cafodd un ei dderbyn, a dau eu derbyn mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cymru. |
| P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch | Mawrth 2021 | Gwnaeth yr adroddiad chwe argymhelliad. Roedd y Pwyllgor yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru ar adeg ysgrifennu. |
| P-05-805 Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi | Mawrth 2021 | Gwnaeth yr adroddiad bedwar argymhelliad. Roedd y Pwyllgor yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru ar adeg ysgrifennu. |

## Dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar ddeisebau

Cynhaliwyd 30 dadl ar ddeisebau yn ystod y Bumed Senedd. Roedd chwech o’r rhain yn ddadleuon ar adroddiadau a gyhoeddwyd gennym, ac yn ogystal, ers mis Mawrth 2017, gwnaethon ofyn am ddadleuon ar ddeisebau sydd wedi casglu nifer fawr o lofnodion (gweler adran 2). Mae’r broses hon wedi caniatáu i'r Senedd gyfan drafod materion o bryder lleol neu genedlaethol o bwys, heb fod yn rhaid i’r Pwyllgor Deisebau gyhoeddi adroddiad ymlaen llaw.

Cynhaliwyd y dadleuon canlynol yn ystod y Bumed Senedd:

| Deiseb | Dyddiad | |
|---|---|---|
| P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari | 29 Mawrth 2017 | Dadl ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deisebau. |
| P-05-756 Diogelu Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru | 12 Gorffennaf 2017 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,383 o lofnodion |
| P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar | 6 Rhagfyr 2017 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 8,791 o lofnodion. |
| P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo’i Hangen Arnynt | 31 Ionawr 2018 | Dadl ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deisebau. |
| P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o | 7 Mawrth 2018 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 6,398 o lofnodion |

| Deiseb | Dyddiad | |
|---|---|---|
| ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru | | |
| P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd | 23 Mai 2018 | Dadl ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deisebau. |
| P-05-896 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg! | 26 Medi 2018 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 40,045 o lofnodion. |
| P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc | 3 Hydref 2018 | Dadl ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deisebau. |
| P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig | 21 Tachwedd 2018 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,125 o lofnodion. |
| P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb | 6 Chwefror 2019 | Dadl ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deisebau. |
| P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad | 6 Mawrth 2019 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 6,345 o lofnodion. |
| P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu - adnabyddiaeth a chefnogaeth | 22 Mai 2019 | Dadl ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deisebau. |
| P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi | 19 Mehefin 2019 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 6,148 o lofnodion. |
| P-05-854 Gwneud hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai | 6 Tachwedd 2019 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,654 o lofnodion. |
| P-05-967 Annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru | 8 Gorffennaf 2020 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,790 o lofnodion. |
| P-05-1003 Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru. | 21 Hydref 2020 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 10,692 o lofnodion. |

| Deiseb | Dyddiad | |
|---|---|---|
| P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu | 4 Tachwedd 2020 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 7,927 o lofnodion. |
| P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru | 4 Tachwedd | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 34,736 o lofnodion. |
| P-05-1060 Caniatewch i archfarchnadoedd werthu eitemau "nad ydynt yn hanfodol" yn ystod y cyfyngiadau symud | 11 Tachwedd 2020 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 67,940 o lofnodion. |
| P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu | 9 Rhagfyr 2020 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,743 o lofnodion. |
| P-05-1074 Cynyddwch nifer y bobl sy'n cael bod mewn mannau awyr agored fel y gall pob tîm yng Nghymru ailddechrau chwarae pêl-droed | 13 Ionawr 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,330 o lofnodion. |
| P-05-1063 Dylid agor cyrsiau golff gan eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol | 13 Ionawr 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 6,317 o lofnodion. |
| P-05-1053 Cadwch gampfeydd ar agor ac ystyriwch eu bod nhw mor bwysig â siopau, os cyflwynir cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith yn rhagor. | 13 Ionawr 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 20,616 o lofnodion. |
| P-05-1032 Deddfu i atal newid enwau Cymraeg tai | 20 Ionawr 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 18,103 o lofnodion. |
| P-05-1117 Rhowch y Brechlyn COVID i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth | 3 Mawrth 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 10,879 o lofnodion. |
| P-05-1119 Blaenoriaethu athrawon, a staff ysgolion a gofal plant ar gyfer brechiadau COVID-19 | 3 Mawrth 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 16,288 o lofnodion. |
| P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig | 3 Mawrth 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,241 o lofnodion. |

| Deiseb | Dyddiad | |
|---|---|---|
| P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol | 3 Mawrth 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 11,392 o lofnodion. |
| P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid! | 10 Mawrth 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,159 o lofnodion. |
| P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru | 17 Mawrth 2021 | Dadl ar ddeiseb a gasglodd 5,386 o lofnodion |

## Canlyniadau deisebau

Yn aml nid yw penderfynu beth yw deiseb lwyddiannus yn broses syml. Yn y pen draw, mae p'un a yw deiseb wedi cyflawni ei nodau ai peidio yn dibynnu ar amcanion neu ddyheadau'r deisebydd a'r rhai sydd wedi'i llofnodi a'i chefnogi.

Rôl y Pwyllgor Deisebau a phroses ddeisebau'r Senedd yw craffu ar y materion sy'n codi yn y deisebau. Rydym wedi sicrhau, felly, bod yr holl ddeisebau sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor yn derbyn ymateb ffurfiol gan y penderfynwr perthnasol (sef Llywodraeth Cymru fel arfer) ac yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Deisebau. Mae deisebwyr yn aml yn ystyried hynny yn ganlyniad neu'n 'llwyddiant' ynddo'i hun, gan fod codi proffil mater neu'r gallu i leisio'u barn yn gallu golygu cymaint â'r canlyniad yn y pen draw. I eraill, mae deiseb yn aml yn rhan o ymgyrch ehangach neu gyfres o gamau gweithredu.

O ystyried nifer y deisebau sy'n dod i law, ein rôl ni fel Pwyllgor yw dewis pa faterion i'w hystyried yn fanylach. Rydym wedi gwneud hyn trwy gynnal sesiynau tystiolaeth, gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig bellach, eu cyfeirio i gael eu hystyried gan bwyllgor arall o'r Senedd, neu gyhoeddi adroddiadau ar y materion a nodwyd. Fel y cyfeiriwyd ato mewn adrannau eraill, mae'r Senedd gyfan wedi trafod deisebau eraill.

Mae nifer sylweddol o ddeisebau yr ydym wedi'u hystyried wedi cyflawni rhai o'u nodau neu bob un ohonynt. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, dyma restr o rai o'r deisebau sydd wedi cyflawni canlyniadau yn ystod y Bumed Senedd:

**P-05-772 Na i Gylch Haearn arfaethedig Castell y Fflint**

Roedd y ddeiseb yn galw am ddileu'r cynllun arfaethedig o gael cerflun y tu allan i Gastell y Fflint oherwydd y canfyddiad ei fod yn dathlu'r "Cylch Haearn" o gestyll a adeiladodd Edward I fel rhan o'i ymgyrch filwrol yng Nghymru.

Cafodd y gosodiad ei ganslo gan Lywodraeth Cymru a chafodd y buddsoddiad ei ddargyfeirio i wneud gwelliannau i brofiad ymwelwyr yn y castell.

**P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar**

Cyflwynwyd y ddeiseb yn erbyn cynnig i werthu tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer datblygu 'archgarchar' ym Maglan.

Wrth i ni ystyried y ddeiseb, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddent yn hwyluso unrhyw ddatblygiad o garchar arall a thynnwyd y cynnig yn ôl.

**P-05-789 Adolygu cymorth i geiswyr lloches sy'n ymgymryd ag addysg bellach**

Roedd y ddeiseb yn ceisio newid mynediad at raglenni cymorth ariannol fel y byddai ceiswyr lloches yn cael gwell cefnogaeth i gymryd rhan mewn addysg bellach.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ym mis Ionawr 2019, a oedd yn cynnwys cynlluniau i weithredu camau y gofynnwyd amdanynt yn y ddeiseb.

**P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru**

Wrth i ni ystyried y ddeiseb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

Derbyniodd y Senedd Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Cymru) 2020 ar 15 Gorffennaf 2020 a daeth yn gyfraith ar 7 Medi 2020.

**P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys**

Roedd y ddeiseb yn galw am benderfyniad i drafodaethau ynghylch mynediad at y feddyginiaeth ffibrosis systig newydd, Orkambi®, ar y GIG.

Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd Llywodraeth Cymru ar fargen i sicrhau bod Orkambi® a chyffur ffibrosis systig arall ar gael i gleifion drwy'r GIG yng Nghymru.

**P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr**

Roedd y ddeiseb hon yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru i stopio ac adolygu gwaith atal llifogydd a fyddai'n lledu nant ac yn achosi i nifer o goed gwympo.

Wrth i ni ystyried y ddeiseb, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ailasesiad o'r gwaith a gynlluniwyd yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath a phenderfynu peidio â bwrw ymlaen â chamau olaf y cynllun.

**P-05-816 Dywedwch 'NA' i saethu ffesantod ar dir cyhoeddus Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb gyda'r nod o atal gweithrediadau saethu masnachol pellach ar dir sy'n eiddo cyhoeddus.

Cadarnhawyd ym mis Gorffennaf 2018 fod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno na fyddai'n cynnig unrhyw estyniad i'r prydlesi ar gyfer hawliau saethu ffesantod ar ôl iddynt ddod i ben ym mis Mawrth 2019, yn dilyn ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.

**P-05-817 Aelodau prosthetig arbenigol i blant**

Roedd y ddeiseb yn galw am gyllid i alluogi plant yng Nghymru sydd wedi colli coes/braich i gael mynediad at brostheteg chwaraeon arbenigol.

Wrth i ni ystyried y ddeiseb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cronfa newydd yn cael ei chreu i ddarparu eitemau prostheteg chwaraeon i blant a phobl ifanc yng Nghymru ym mis Hydref 2019.

**P-05-854 Gwneud hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai**

Roedd y deisebwyr yn galw am ddarparu hyfforddiant ar anableddau dysgu i holl staff gofal iechyd yn dilyn marwolaeth eu brawd yn 2009.

Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd dysgu yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen hyfforddi graidd ar gyfer yr holl staff gofal iechyd fel rhan o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol, ynghyd â hyfforddiant wedi'i dargedu'n fwy manwl ar gyfer staff mewn rolau allweddol.

**P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)**

Roedd y ddeiseb yn galw am wahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol.

Ar 23 Mawrth 2021, derbyniodd y Senedd Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 a fydd yn ei gwneud yn drosedd i drydydd partïon masnachol werthu cŵn bach a chathod bach o dan 6 mis o fis Medi 2021.

**P-05-906 Achub Ward Sam Davies yn Ysbyty y Barri**

Nod y ddeiseb oedd ceisio atal cau ward adsefydlu acíwt pobl hŷn yn Ysbyty y Barri.

Fe wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydnabod y ddeiseb a chytunwyd i adolygu cadw'r ward ar agor i ddechrau ac adolygu cynlluniau ymhellach fel rhan o gyfres ehangach o ddiwygiadau.

**P-05-946 Achub adran Damweiniau ac Achosion Brys Brenhinol Morgannwg**

Cyflwynwyd y ddeiseb yn dilyn cynnig i ddisodli adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg gydag uned Mân Anafiadau, fel rhan o raglen ehangach De Cymru.

Ym mis Mehefin 2020, yn dilyn yr ymgyrch gymunedol, y ddeiseb ac effeithiau pandemig Covid-19, penderfynwyd y dylid oed gyda'r cynigion ynghylch gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys ac y dylai gwasanaethau damweiniau ac achosion brys llawn barhau i fod ar waith.

**P-05-995 Rhyddid i Roi Gwaed**

Roedd y ddeiseb yn galw am godi'r cyfyngiadau sy'n atal dynion hoyw a deurywiol rhag rhoi gwaed oni bai eu bod wedi ymatal rhag cael rhyw.

Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 y byddai rheolau a oedd yn atal llawer o ddynion hoyw rhag rhoi gwaed yn cael eu newid.

**P-05-1019 Dyfarnwch raddau a ragwelwyd gan athrawon i holl fyfyrwyr Cymru ar gyfer arholiadau 2020**

Roedd y ddeiseb yn galw ar i bob myfyriwr sy'n derbyn canlyniadau yn 2020 dderbyn 'Graddau Asesu Canolfannau' heb unrhyw gymedroli allanol, mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch tegwch y graddau hynny.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai graddau Safon Uwch, Uwch Gyfannol, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau.

**P-05-1025 Tegwch i fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau yn 2021 a P-05-1055 Dileu arholiadau TGAU a Safon Uwch**

Roedd y deisebau (1025 a 1055) yn ceisio sicrhau na fyddai myfyrwyr a fyddai'n cael arholiadau yn 2021 o dan anfantais oherwydd effaith Covid-19 ar eu haddysg.

Ym mis Ionawr 2021, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd cymwysterau dysgwyr sy'n gwneud TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yn cael eu dyfarnu trwy fodel Gradd a Benderfynir gan Ganolfan yn hytrach nag arholiadau.

**P-05-1118 Gadewch i rieni plant dan 1 oed ffurfio swigen gefnogaeth o dan gyfyngiadau Covid Haen 4 newydd**

Roedd y ddeiseb yn galw ar i rieni babanod newyddanedig neu blant ifanc allu ffurfio 'aelwyd estynedig' (sy'n cael ei alw'n gyffredinol yn swigen gefnogaeth) gydag aelwyd arall yn ystod cyfyngiadau clo Coronafeirws.

Diwygiwyd y cyfyngiadau i ganiatáu hyn ym mis Chwefror 2021.

**P-05-1137 Galwad ar i Lywodraeth Cymru roi cyllid teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru**

Roedd y ddeiseb yn codi pryderon ynghylch toriadau arfaethedig i'r gweithlu a gwasanaethau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Wrth i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol ar gyfer y Llyfrgell ym mlynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22 gyda'r bwriad o gefnogi argymhellion allweddol ar gyfer ei chynaliadwyedd yn y dyfodol.

# 4. Pethau i'w hystyried ar gyfer y Chweched Senedd

Ar sail ein profiad yn ystod y tymor hwn o'r Senedd, rydym wedi gwneud sawl argymhelliad i'w hystyried gan ein pwyllgor olynol a'r Senedd nesaf.

## Prosesau'r Pwyllgor

At ei gilydd, rydym o'r farn bod y prosesau sy'n cefnogi ein gwaith fel Pwyllgor wedi gweithredu'n dda yn ystod y Bumed Senedd. Credwn ei bod yn parhau i fod yn bwysig i'r Pwyllgor Deisebau ystyried yr holl ddeisebau a gyfeiriwyd ato a bod sicrhau ymateb gan Lywodraeth Cymru, neu gorff perthnasol arall, cyn hyn wedi gwneud yr ystyriaeth hon yn effeithlon ac yn ystyrlon.

Un her allweddol yw sut y dylai'r Pwyllgor reoli nifer y deisebau y mae'n eu derbyn yn y ffordd orau er mwyn galluogi i graffu'n fanwl ar faterion o'i ddewis. Credwn ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn ceisio nodi'r deisebau hynny y mae'n dymuno cymryd tystiolaeth bellach arnynt neu roi ystyriaeth fanylach iddynt yn gynnar, gan mai dyma lle y gall ychwanegu gwerth sylweddol at y broses ddeisebau.

Er mwyn galluogi gwneud hynny, mae angen datrys deisebau eraill mewn ffordd effeithlon. Anaml iawn y bydd cau deisebau yn benderfyniad hawdd, ond mae'n bwysig gwneud hynny er mwyn sicrhau nad yw llwyth gwaith y Pwyllgor yn mynd yn ormod ac fel nad yw cyfarfodydd y Pwyllgor yn canolbwyntio'n llwyr ar brosesu gohebiaeth. Rydym hefyd yn arsylwi bod safbwyntiau priodol y deisebydd a'r Llywodraeth (neu gorff arall) yn eithaf clir yn gyffredinol yn gynnar ac nad yw cyfnewid gohebiaeth hirfaith, yn enwedig pan nad oes llawer o gynnydd yn cael ei wneud ar y mater, yn cael fawr o effaith ymarferol ac fe all hynny fod yn rhwystredig i'r rhai sy'n gysylltiedig.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai ein pwyllgor olynol ystyried ar y dechrau sut y mae'n bwriadu nodi'r deisebau y mae'n dymuno craffu'n fanwl arnynt, ac i ddarparu adnoddau ar gyfer ei waith yn unol â hynny.

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol geisio datrys y mwyafrif o ddeisebau mewn modd amserol, er budd deisebwyr ac i sicrhau bod ganddo'r amser a'r gallu i gynnal gwaith craffu manwl ar faterion o'i ddewis. Os y bydd y nifer fawr o ddeisebau yn parhau, bydd hyn yn debygol o olygu cytuno i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach ar rai deisebau yn dilyn eu hystyriaeth gychwynnol.

### Deisebau sy'n sensitif o ran amser

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at newid yn y math o ddeisebau sy'n dod i law ers gwanwyn 2020. Yn benodol, bu cynnydd sylweddol yn nifer y deisebau sy'n galw am weithredu ar unwaith, fel newidiadau i gyfyngiadau neu alwadau am fwy o gefnogaeth i fusnesau penodol. Mae'r rhain wedi ein hysgogi i fyfyrio ar y broses o gyfeirio deisebau atom i'w hystyried.

O dan brosesau sefydledig y Pwyllgor, mae'n rhaid i ddeisebau gau ar gyfer derbyn llofnodion cyn y gellir eu hystyried. Fodd bynnag, gall hyn beri problemau pan fydd angen gweithredu ar unwaith ond bod y dyddiad cau sydd wedi'i ddewis gan y deisebwyr beth amser yn y dyfodol. Mae hyn wedi arwain at faich gweinyddol sylweddol i'r staff sy'n cynorthwyo â'r broses ddeisebau ac, ar brydiau, bydd y deisebau wedi dyddio erbyn iddynt gael eu cyfeirio atom i'w hystyried.

**Argymhelliad 3.** Yn seiliedig ar ein profiad o ystyried deisebau sy'n sensitif o ran amser yn ystod pandemig Covid-19, rydym yn argymell y dylai'r pwyllgor nesaf ystyried a ddylid cyfeirio deisebau ato ar y cyfle cyntaf ai peidio, hyd yn oed pan fyddant yn dal i gasglu llofnodion. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys a fyddai hyn yn achosi anawsterau ymarferol a'r effaith y byddai newid o'r fath yn ei chael ar weinyddu'r broses ddeisebau.

## Trothwy llofnodion

### Trothwy ar gyfer ystyried deisebau

Y prif drothwy ar gyfer deisebau yw 50 llofnod. Caiff pob deiseb sy'n casglu 50 llofnod ei chyfeirio at y Pwyllgor i'w hystyried a chael ymateb gan Lywodraeth Cymru, neu rywun arall sy'n gwneud penderfyniadau.

Fel y trafodwyd yn adran 1, mae nifer y deisebau sy'n dod i law wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf ac ar hyn o bryd nid yw'n glir i ba raddau y bydd y newid hwn yn un dros dro neu'n barhaol. Fodd bynnag, mae'n wir bod nifer y deisebau a anfonir i'r Senedd wedi bod yn cynyddu'n gyson cyn effaith gyfunol pandemig Covid-19 a gwefan newydd.

Nid ydym wedi gwneud dadansoddiad manwl o'r mater hwn. Fodd bynnag, ein barn ni yw bod y trothwy presennol o 50 llofnod yn rhy isel gan arwain at rai deisebau yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Deisebau er nad oes ganddynt gefnogaeth sylweddol. Er ein bod yn credu y dylai'r broses ddeisebau barhau i fod yn agored ac yn hygyrch, rydym yn pryderu bod y trothwy isel wedi cael effaith ar ein gallu i gynnal gwaith craffu manwl ar gynifer o faterion ag y byddem wedi dymuno eu gwneud.

Felly, rydym yn argymell y dylid adolygu'r trothwy erbyn y pwyllgor nesaf, ynghyd â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn argymhellion 1 a 2. Awgrymwn y gellir cyfiawnhau ffigur o 200 neu 250 o lofnodion ar sail ein profiad ac i sicrhau y gall y deisebau sy'n cael eu cyfeirio i graffu arnynt ddangos lefel sylweddol o gefnogaeth y cyhoedd.

**Argymhelliad 4.** Dylid rhoi ystyriaeth fanylach i weld a yw'r trothwy presennol o 50 llofnod ar gyfer ystyried deiseb yn parhau i fod yn briodol, neu a ddylid ei gynyddu yn gynnar yn y Chweched Senedd.

## Trothwy ar gyfer dadl

Caiff deisebau sydd â thros 10,000 o lofnodion eu hystyried ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn. Rhwng cyflwyno'r trothwy hwn ym mis Mawrth 2017 a 1 Rhagfyr 2020, y trothwy hwn oedd 5,000 o lofnodion. Fel y cyfeiriwyd ato yn adran 2, gwnaethom addo adolygu effaith y newid hwnnw ar ddiwedd y Bumed Senedd.

Yn ystod y pedwar mis mae'r targed diwygiedig wedi bod ar waith mae chwe deiseb wedi pasio'r trothwy o 10,000 o lofnodion, sy'n dangos bod modd cyrraedd y targed o hyd. Mewn cyferbyniad, roedd gan 11 deiseb dros 5,000 o lofnodion yn ystod yr un cyfnod amser.[2]

Credwn fod y newid hwn wedi helpu i sefydlu disgwyliadau mwy realistig ynghylch gallu'r Senedd i drafod deisebau yn ystod y Cyfarfod Llawn, a bod osgoi disgwyliadau ffug ynghylch y gobaith o gynnal dadl er budd pawb dan sylw.

Dylai'r trothwy gael ei osod ar lefel y gellir ei chyrraedd yn rhesymol heb osod disgwyliadau afrealistig. Credwn y bydd dadleuon uniongyrchol yn y Cyfarfod Llawn ar ddeisebau yn fwy effeithiol os ydynt yn gymharol anarferol. Ein barn ni hefyd yw ei bod o fudd i graffu ar y mwyafrif o ddeisebau trwy waith pwyllgor, lle gellir rhoi ystyriaeth fanylach i farn y deisebydd/deisebwyr a'r ymateb gan Lywodraeth Cymru neu rywun arall sy'n gwneud penderfyniadau. Mae dadl yn fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau lle mae mater yn un proffil uchel a/neu pan fydd angen gwneud penderfyniad neu ei herio'n gyflym.

Rydym o'r farn y dylid cynnal yr arfer a fabwysiadwyd yn ddiweddar, lle mae'r Cadeirydd neu Aelod o'r Pwyllgor Deisebau wedi cyfrannu at ddadleuon er mwyn

[2] At ddibenion cymharu, roedd 22 deiseb wedi casglu mwy na 5,000 o lofnodion yn y cyfnod blaenorol o bedwar mis (Awst – Tachwedd 2020), er bod sawl deisebydd wedi cau eu deisebau yn gynnar ar ôl cael gwybod am y newid ymlaen llaw.

tynnu sylw at ddeisebau mawr perthnasol, fel ffordd o sicrhau y gellir ystyried mwy o ddeisebau yn ystod trafodion y Cyfarfod Llawn.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod pandemig y coronafeirws wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd o broses ddeisebau'r Senedd ac y gallai fod yn bosibl lleihau nifer y llofnodion sy'n ofynnol yn y dyfodol pe bai nifer y deisebau sy'n dod i law yn lleihau i'w lefelau blaenorol.

Rydym hefyd o'r farn y dylai'r Pwyllgor Deisebau gadw disgresiwn ynghylch pa faterion y dylid eu cyflwyno i'w trafod, h.y. ni ddylid cyfeirio yn awtomatig. Mae yna nifer o resymau pam nad dadl efallai yw'r dull gweithredu mwyaf priodol, er enghraifft: efallai bod yr amgylchiadau eisoes wedi newid; efallai bod y mater wedi cael ei drafod neu ei ystyried mewn ffordd arall yn ddiweddar; neu efallai y byddai'n fwy addas ar gyfer craffu manwl gan bwyllgor. Yn ogystal, o gofio nad yw'r gallu i lofnodi deisebau'r Senedd wedi'i gyfyngu yn ôl lleoliad, credwn ei bod yn rhesymol ystyried nifer a chyfran y llofnodion a gesglir yng Nghymru cyn gofyn am ddadl.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylid cadw'r trothwy ar gyfer ystyried dadleuon ar ddeisebau ar 10,000 o lofnodion ac y dylai'r Pwyllgor Deisebau gadw ei ddisgresiwn i benderfynu pa ddeisebau a gaiff eu cyfeirio ar gyfer dadl. Nodwn y gallai fod yn bosibl lleihau'r trothwy hwn yn y dyfodol pe bai nifer y deisebau yn lleihau.

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â Deiseb P-05-805: Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi**

Mae athrawon cyflenwi yn chwarae rhan bwysig o ran darparu addysg i ddysgwyr ledled Cymru ac mae Llywodraeth Cymru waedi ymrwymo i wella cyflog ac amodau i'r athrawon hynny sy'n gweithio mewn rolau dros dro.

Yn dilyn adroddiad Tasglu’r Model Cyflenwi yn 2017 ac ar ôl cyflwyno Deiseb P-05-805: Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau sylweddol i fynd i'r afael â'r pryderon ac argymhellion y Tasglu mewn cysylltiad â chyflog ac amodau athrawon cyflenwi.

Cyflwynwyd Fframwaith diwygiedig y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Cyflenwi ym mis Medi 2019 ac mae'n cynnwys meini prawf y mae rhaid i asiantaethau’r fframwaith eu bodloni er mwyn sicrhau cyflog ac amodau teg i athrawon cyflenwi asiantaethau, gan gynnwys isafswm cyflog a'r cyfle i gael hyfforddiant proffesiynol perthnasol. Rydym hefyd wedi mynd i’r afael â’r pryderon a godwyd ynghylch ffioedd uwch asiantaethau drwy ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ddarparu rhestrau prisiau sefydlog a thryloyw i ysgolion, i'w helpu i reoli eu cyllidebau staffio dirprwyedig a gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch defnyddio asiantaethau.

Er mwyn treialu dull amgen i ysgolion o recriwtio athrawon cyflenwi, sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot Model Clwstwr Cyflenwi ym mis Hydref 2017. Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn croesawu’r prosiect ac rydym yn parhau i hyrwyddo'r model hwn i ysgolion ac i awdurdodau lleol, yn ogystal â hyrwyddo manteision defnyddio athrawon cyflenwi drwy drefniant clwstwr.

Un o agweddau mwy cymhleth y maes hwn oedd ceisio gwella amgylchiadau i'r rhai sy'n gweithio yn y sector cyflenwi gan gydnabod ar yr un pryd nad oes un model yn bodoli yng Nghymru a fydd yn addas i bawb. Roedd Tasglu'r Model Cyflenwi yn cydnabod y pwynt hwn wrth adolygu trefniadau athrawon cyflenwi yn 2017[1]. Hefyd, mae ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod gweithlu priodol ac effeithiol ar waith, gan gynnwys trefniadau cyflenwi. Gellir cyflogi athrawon cyflenwi yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau ac, o dan drefniadau rheoli ysgolion yn lleol, ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sy'n gweithio iddynt.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deisebau am eu hadroddiad ar y ddeiseb Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi, ac am ystyried y gwaith diweddar a pharhaus gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

[1] https://llyw.cymru/tasglur-model-cyflenwi-adroddiad

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu effaith y Cytundeb Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer darparu gweithwyr dros dro ac athrawon cyflenwi, a ddyfarnwyd ym mis Medi 2019, er mwyn deall yn llawn ei effaith ar gyflog ac amodau'r gweithlu addysgu cyflenwi.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn monitro cydymffurfedd asiantaethau ac yn casglu data yn erbyn y Fframwaith bob chwarter. Gofynnir i asiantaethau gofnodi gwybodaeth yn erbyn nifer yr archebion, y rolau a recriwtiwyd iddynt ac a yw'r rolau ar gyfer athrawon cymwysedig yn cael eu talu ar isafswm y brif raddfa gyflog i athrawon. Cesglir gwybodaeth hefyd yn erbyn y gofynion hyfforddi, ac mae'n cofnodi faint o staff asiantaeth sydd wedi manteisio ar gynigion hyfforddi. Ers i'r Fframwaith gael ei sefydlu ym mis Medi 2019, mae cydymffurfedd asiantaethau wedi gwella'n sylweddol. Pan fydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael gwybod am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio, ymchwilir i'r achosion hynny, gan fynd i'r afael â hwy gyda'r asiantaeth dan sylw.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r Fframwaith a rhoi'r newidiadau ar waith, yn ôl y gofyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru, dylai Llywodraeth Cymru fonitro faint sy'n defnyddio'r Cytundeb Fframwaith i ddeall a yw ysgolion yn defnyddio asiantaethau y tu allan i'r contract hwnnw, a'r niferoedd.

**Ymateb: Derbyn**

Er bod asiantaethau bellach yn dilyn telerau'r Fframwaith, dangosodd data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ddiwedd 2020 bod rhai ysgolion ac awdurdodau lleol naill ai'n dewis defnyddio asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r Fframwaith i dalu cyfradd is, neu'n gwrthod talu cyfradd y Fframwaith. Yn dilyn trafodaethau drwy Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion, mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo i gefnogi'r Fframwaith a gofynnwyd i ysgolion gynnwys y gofyniad i gadw at delerau'r Fframwaith yn eu polisïau cyflog unigol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Fframwaith.

Deallaf fod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn adolygu gwybodaeth am wariant cyflenwyr awdurdodau lleol a gyflwynir i asesu sut mae awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau. Er nad yw hwn yn gasgliad statudol, mae'n galluogi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i asesu o le y mae awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau hyn wedi'u gohirio oherwydd pwysau Covid-19, ac mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar y data sydd ar gael. Bydd swyddogion yn asesu sut y gellir ailddechrau'r gwasanaethau hyn yn y flwyddyn academaidd nesaf a, gan ddefnyddio'r data a ddarperir, byddant yn parhau i fonitro faint sy'n defnyddio'r Fframwaith.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:**

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried ymhellach drefniadau amgen ar gyfer cefnogi ysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi a'u cyflogi, gan gynnwys cyflogaeth uniongyrchol a chyflwyno trefniadau cyflenwi canolog neu ranbarthol. Rydym o'r farn y byddai gan ddatrysiad sector cyhoeddus fanteision sylweddol dros y model cyfredol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Archwiliwyd modelau cyflenwi amgen drwy'r gwaith a wnaed gan Dasglu'r Model Cyflenwi yn 2017. Yn dilyn hynny, dywedodd y Tasglu na allai argymell un model cyflenwi a fyddai'n briodol i Gymru. Er hyn, roedd yn argymell y dylid edrych ar opsiynau amgen, gan gynnwys model cydweithredol. Treialwyd model felly rhwng 2017 a 2020 a nodwyd amrywiaeth o fanteision gan yr ysgolion a'r athrawon cyflenwi a oedd yn cymryd rhan.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygiad annibynnol pellach o gyflogaeth athrawon cyflenwi, a fydd yn llywio unrhyw gynigion ar gyfer modelau cyflenwi amgen y gellid eu sefydlu. Byddai angen i unrhyw newidiadau i'r model cymysg presennol ystyried yr effaith ar y farchnad athrawon cyflenwi sydd ohoni, sydd wedi hen ennill ei phlwy yng Nghymru. Ar hyn o bryd, awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n gyfrifol am benderfyniadau staffio, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 4.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ystyried cyflog ac amodau athrawon cyflenwi a dros dro fel rhan o'i gyfrifoldebau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae llythyr cylch gwaith 2021 at Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn cynnwys cyfarwyddyd i'r Corff ystyried materion tymor hirach posibl y gellid mynd i'r afael â hwy drwy gylchoedd gwaith aml-flwyddyn a/neu gylchoedd gwaith annibynnol ychwanegol sy'n mynd i'r afael â materion penodol mewn perthynas â thelerau ac amodau; i gynnwys;

- A yw'r strwythur presennol ar gyfer cyflog, telerau ac amodau athrawon yn deg ac yn briodol i bob arweinydd ysgol ac athro yng Nghymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi o fewn cwmpas y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Ar hyn o bryd mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn ystyried cyngor gan randdeiliaid a disgwylir iddo gyflwyno adroddiad gyda'i argymhellion erbyn 14 Mai.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy’n bodoli eisoes.

**Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Adolygiad o ffyrdd, [Y Cyfarfod Llawn 22 Mehefin 2021](#)**

Diolch, Llywydd. Mae gwyddonwyr y byd yn dweud wrthym mewn termau clir iawn fod angen inni leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ar frys. Er 1990, mae allyriadau Cymru wedi gostwng 31 y cant, ond er mwyn cyrraedd ein targed statudol o sero net erbyn 2050 mae angen inni wneud llawer mwy. Fel yr atgoffodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ni yr wythnos diwethaf, os ydym ni am gadw'r cynnydd mewn tymheredd o fewn terfynau diogel, mae angen i ni, yn ystod y 10 mlynedd nesaf, fwy na dyblu'r holl doriadau yr ydym wedi llwyddo i'w cyflawni dros y 30 mlynedd diwethaf.

Er mwyn cyrraedd targed 2050, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud wrthym fod angen inni leihau allyriadau yn y degawd nesaf 63 y cant, ac erbyn 2040 mae angen iddyn nhw ostwng 89 y cant. Ar ein llwybr presennol, ni fyddwn yn cyflawni sero net tan tua 2090. Mae'r her yn amlwg a bydd angen i bawb, gan gynnwys y Llywodraeth, ystyried effaith eu dewisiadau.

Trafnidiaeth yw tua 17 y cant o gyfanswm ein hallyriadau ac felly mae'n rhaid iddi chwarae ei rhan. Yn gynharach eleni cyhoeddais strategaeth drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, 'Llwybr Newydd'. Mae'n nodi gweledigaeth feiddgar ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru dros y ddau ddegawd nesaf. Yr oedd yn cynnwys, am y tro cyntaf, darged newid dulliau teithio, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni anelu at 45 y cant o deithiau i fod drwy ddulliau cynaliadwy o deithio erbyn 2045, i fyny o 32 y cant ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni'r targedau hyn mae angen inni symud oddi wrth wario arian ar brosiectau sy'n annog mwy o bobl i yrru, a buddsoddi mewn dewisiadau amgen go iawn sy'n rhoi dewis ystyrlon i bobl.

Mae ein rhaglen lywodraethu yn ymrwymo i gyflwyno Bil bysiau pellgyrhaeddol yn nhymor y Senedd hon i'w gwneud yn haws integreiddio amserlenni bysiau a threnau. Mae gweithredwyr bysiau wedi dweud mai'r prif rwystr i gynyddu nawdd yw dibynadwyedd ac amseroedd teithio, felly byddwn yn cymryd camau i roi mwy o flaenoriaeth i fysiau ar ein ffyrdd a byddwn yn edrych hefyd ar docynnau bws.

Eleni byddwn ni'n gwario mwy nag unrhyw ran arall o'r DU y pen ar fuddsoddiad teithio llesol i annog pobl i gerdded neu feicio ar gyfer teithiau lleol. Mae dwy o bob tair taith yng Nghymru o dan bum milltir o hyd. Gyda'r buddsoddiad cywir, a gydag anogaeth, mae potensial enfawr i gael y rhan fwyaf o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau bob dydd—nid pob taith, nid pawb, ond y mwyafrif. Mae'n rhywbeth y gallwn ni ei wneud, ac mae llawer o wledydd lle mae eisoes yn cael ei wneud.

Mae deall y data yn gysylltiedig â thrafnidiaeth hefyd yn rhoi cyfle i ni wneud dewisiadau, ac, wrth i'r data a'r wyddoniaeth newid, bydd y dewisiadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn newid. Mae'n rhaid inni ddefnyddio'r cyfle sydd gennym yn ddoeth os ydym am gyrraedd ein targedau newid hinsawdd. I'r perwyl hwn, rydym yn cyhoeddi oedi ar bob cynllun ffordd newydd wrth i ni adolygu ein hymrwymiadau presennol.

Mae swyddogion yng nghamau olaf sefydlu panel adolygu ffyrdd, a fydd yn cynnwys rhai o brif arbenigwyr y DU ar drafnidiaeth a newid hinsawdd. Bydd y panel yn ystyried gosod profion ar gyfer penderfynu pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Ac rwyf yn dymuno i'r adolygiad ystyried sut y gallwn ni symud gwariant tuag at gynnal a chadw ein ffyrdd presennol yn well, yn hytrach nag adeiladu rhai newydd, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau trawsbleidiol yn y Senedd ddiwethaf.

Byddwn ni'n cyhoeddi cylch gorchwyl llawn yr adolygiad a'r aelodaeth lawn maes o law. Mater i'r panel fydd adolygu ein holl fuddsoddiadau arfaethedig mewn ffyrdd, boed hynny'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, neu'n anuniongyrchol, drwy grantiau, ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, fel bod pob prosiect yn y dyfodol yn cyd-fynd â thair blaenoriaeth y strategaeth drafnidiaeth newydd: lleihau'r angen i deithio, caniatáu i bobl a nwyddau symud yn haws o ddrws i ddrws drwy fathau cynaliadwy o drafnidiaeth, ac annog pobl i wneud y newid.

Mae strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru yn ymgorffori'r defnydd o hierarchaeth cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy, a bydd y panel yn defnyddio hyn i sicrhau ein bod yn annog teithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat. Er mwyn sicrhau bod y dull hwn wedi'i ymgorffori'n llawn yn ein penderfyniadau buddsoddi a'r rhai a wneir gan bartneriaid cyflawni eraill, rydym hefyd yn adolygu canllawiau arfarnu trafnidiaeth Cymru, ein fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau trafnidiaeth, fel ei fod yn gyson â 'Llwybr Newydd' ac yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr adolygiad yn darparu adroddiad cychwynnol i'r Gweinidogion o fewn tri mis i'w benodi, gan nodi sut y bydd yn mynd ati i gyflawni ei dasg, a darperir yr adroddiad terfynol o fewn naw mis i hynny, gan nodi canfyddiadau'r adolygiad.
Mae pob plaid yn y Senedd hon wedi ymrwymo i gymryd y bygythiad a achosir gan newid hinsawdd o ddifrif, ac mae hynny'n golygu gweithredu nawr i leihau allyriadau. Ni fydd hyn bob amser yn gyfforddus nac yn hawdd, Llywydd, ond dyna y mae'r wyddoniaeth yn gofyn i ni ei wneud a dyna y mae cenedlaethau'r dyfodol yn ei fynnu gennym. Diolch.

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon